

**CYD-BWYLLGOR  
GWASANAETH ADDYSG  
AR Y CYD  
CONSORTIWM CANOLBARTH  
Y DE**

**DATGANIAD O GYFRIFON**

**2022/23**

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
Adroddiad Naratif	2
Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon	10
Tystysgrif y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Grŵp - Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen	11
Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn	12
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	14
Mantolen	15
Datganiad Llif Arian	16
Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid	17
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd	19
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	43
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	72
Geirfa	77

## Adroddiad Naratif

### 1. Cyflwyniad

Sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar 1 Medi 2012 i ddarparu ystod o wasanaethau gwella ysgolion yn gweithredu ar ran pum awdurdod lleol, sef: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Hwn yw'r rhanbarth mwyaf poblog yng Nghymru. Mae'n cynnwys 380 o ysgolion ac yn gwasanaethu 152,141<sup>1</sup> o ddysgwyr – sef bron i draean o blant oedran ysgol y wlad. Mae'r rhanbarth yn gartref i'r nifer uchaf a'r gyfran fwyaf o blant sy'n byw mewn tlodi; mae hefyd yn gartref i'r brifddinas a diwydiannau economaidd, ariannol a chreadigol Cymru.

Caiff y Consortiwm ei reoli a'i weinyddu gan Gyd-bwyllgor Consortiwm Canolbarth y De, o dan bwerau a roddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys pum Aelod, un o bob awdurdod lleol. Daeth CBS Rhondda Cynon Taf yn Awdurdod Lletyol pan ffurfiwyd y Cyd-bwyllgor.

Paratowyd y cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn unol â'r canlynol:

- Y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 wedi'i seilio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS); a
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd).

Mae'r cyfrifon a nodir ar dudalennau 12 i 43 yn cydymffurfio â'r uchod.

### 2. Cynllun Busnes 2022-2023

Rôl y Consortiwm yw herio a chynorthwyo ysgolion yn eu gwaith i wella deilliannau addysgol.

Mae'r awdurdodau lleol (trwy Gyd-bwyllgor a fynychir gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Addysg ym mhob awdurdod) yn cytuno ar y cynllun busnes a chyllideb ar gyfer y rhanbarth, ac yn dwyn y Consortiwm i gyfrif am effaith ei waith.

Mae'r Consortiwm yn derbyn ei gyllid craidd o'r pum awdurdod lleol ac mae hefyd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithgareddau penodol yn unol â blaenoriaethau / mentrau cenedlaethol.

---

<sup>1</sup> Casgliadau data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2022

Mae perfformiad yr ysgolion yn rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De yn allweddol i lwyddiant addysgol ac economaidd Cymru yn y dyfodol.

Mae pa mor dda y mae plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn cyflawni yn y rhanbarth hwn, yn dylanwadu'n sylweddol ar y modd y caiff y wlad a'i system addysg eu hamgyffred o fewn ein ffiniau, a thu hwnt.

Nod cynllun busnes y Consortiwm yw:

- Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel
- Datblygu arweinwyr ysbrydoledig i hwyluso cydweithio i godi safonau
- Datblygu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwmo i sicrhau lles, tegwch a rhagoriaeth
- Datblygu trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd cadarn sy'n ategu systemau hunanwella
- Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Consortiwm Canolbarth y De.

Mae cynlluniau gweithredol yn ategu pob amcan gwella.

Casglwyd Cynllun Busnes y Consortiwm ynghyd yng nghyd-destun lleihau adnoddau, ac mae hyn yn gyson â'r hinsawdd economaidd heriol sy'n wynebu holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â hyn, fe wnaeth cyfraniadau referniw 2022/23 a dderbyniodd y Consortiwm gan y pum aelod awdurdod lleol gynyddu 1.72% ond rhagwelir y bydd sefyllfa'r Consortiwm o fod angen gweithredu mewn amgylchedd o lefelau cyllid heriol yn parhau i'r tymor canolig.

Yn sgil pandemig COVID-19, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ganslo rhan fwyaf y casgliadau data statudol ar gyfer 2020, 2021 a 2022. Mae'r casgliadau a gafodd eu hatal yn cynnwys:

- Presenoldeb: Casgliadau data Cynradd 2020, 2021 a 2022
- Presenoldeb: Casgliadau data Uwchradd 2020, 2021 a 2022
- Casgliadau Data Cenedlaethol (NDC): Holl gasgliadau data 2020 a 2021 a'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer 2022

Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg ar 21 Mehefin 2021<sup>2</sup> hefyd na fyddai Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi mesurau perfformiad yn ymwneud â chyfres arholiadau haf 2021, sy'n cwmpasu'r holl fesurau perfformiad ysgol ac ôl-16 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020-21. Yn ogystal, o ystyried y goblygiadau

<sup>2</sup> <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-trefniadau-gwybodaeth-gwella-ac-arolygu-ysgolion-cefnogi-adnewyddu-diwygio>

clir y bydd tarfu parhaus ar gyfer cymwysterau, mae Llywodraeth Cymru wedi atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 (CA4) a mesurau perfformiad etifeddol chweched dosbarth ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-22. Felly, nid oes unrhyw fesurau perfformiad ar gael ar gyfer CA4 nac Ôl-16 ar gyfer canlyniadau Haf 2020, 2021 a 2022.

Mae'r bwletinau Ystadegol ar gyfer canlyniadau TGAU a Safon Uwch wedi eu cyhoeddi ar gyfer 2021-22 fel yr oeddent ar gael ar gyfer 2019-20 a 2020-21, ond ni fyddant yn cynnwys mesurau perfformiad CA4 na mesurau perfformiad etifeddol chweched dosbarth, a byddant ond yn cynnwys data lefel Genedlaethol â chynnwys gwahanol i ddatganiadau blaenorol y bwletinau hyn.

Felly, ar gyfer 2020-21, nid oes unrhyw fesurau perfformiad ar gael i'r cyhoedd ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu gonsortiw m rhanbarthol a'r un oedd y sefyllfa ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n bwysig nodi, ar ôl i Lywodraeth Cymru atal casgliadau data statudol a chyhoeddi canlyniadau, y bydd gostyngiad yn y dadansoddiad sydd ar gael o fewn CCD. Fodd bynnag, bydd gan ysgolion eu systemau mewnol eu hunain ar gyfer olrhain a dadansoddi perfformiad a chanlyniadau disgyblion. Mae'r rhain yn ffocws allweddol ar gyfer trafodaethau gydag arweinyddion ysgolion i alluogi cefnogaeth a her barhaus briodol gan CCD i sicrhau gwelliant ysgol a gweithio mewn partneriaeth.

Mae cyhoeddi data perfformiad ar Fy Ysgol Leol wedi'i atal hefyd, ac mae cyhoeddi'r Categori Cenedlaethol<sup>3</sup> yn cael ei atal hefyd ar gyfer 2021-22 am na chynhaliwyd y prosesau ar gyfer blynyddoedd academaidd 2020-21 a 2021-22.

### **3. Refeniw Incwm a Gwariant 2022/23**

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn rhoi dadansoddiad o wariant ac incwm refeniw gros y Consortiwm yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Ategodd strategaeth cyllideb refeniw 2022/23 y Consortiwm yr amcanion bras canlynol:

- Cefnogi cyflawni blaenoriaethau strategol allweddol, yn enwedig o ran yr angen i greu timau o ymgynghorwyr her i weithio gyda phob ysgol yn y rhanbarth (gan neilltuo mwy o amser i'r ysgolion sydd fwyaf mewn angen);

---

<sup>3</sup> <https://www.llyw.cymru/newidiadau-i-drefniadau-adrodd-cyfnod-allweddol-4-o-flwyddyn-academaidd-2022-i-2023-html> (Diweddariad Hydref 2021)

- Darparu dadansoddiad data amserol i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgolion (gan gynnwys barnau categoreiddio ysgolion);
- Cefnogi ac ariannu partneriaethau gwella rhwng ysgolion a brocera cymorth rhwng ysgolion;
- Dyrannu cyllid grant i ysgolion yn y rhanbarth gyda chanllawiau a chynghor ar sut gellir defnyddio cyllid grant i ysgogi gwelliant; a
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau yn y rhanbarth.

Mae'r tabl yn dangos yr incwm a'r gwariant rheoladwy a gyllidebwyd yn unol â'r incwm a'r gwariant rheoladwy gwirioneddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:

	<b>Cyllideb £'000</b>	<b>Gwirioneddol £'000</b>	<b>Amrywiant £'000</b>
<b>Gwariant</b>			
Cyflogeion	3,130	2,819	(311)
Adeiladau	159	113	(46)
Cludiant	12	25	13
Cyflenwadau a Gwasanaethau	174	594	420
Taliadau i Drydydd Partïon	28	28	0
Gwasanaethau Cymorth	141	170	29
	<b>3,644</b>	<b>3,749</b>	<b>105</b>
<b>Incwm</b>			
Cyfraniadau Awdurdodau Lleol	3,625	3,625	0
Grantiau ac Incwm Arall	19	124	(105)
	<b>(3,644)</b>	<b>(3,749)</b>	<b>(105)</b>
<b>Gwariant Net / (Incwm)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

Dyma oedd y rhesymau am yr amrywiannau rhwng gwariant ac incwm a gyllidebwyd a gwariant ac incwm gwirioneddol:

- Cyflogeion - arbedion y gellir eu priodoli i swyddi gwag staff dros dro yn ystod y flwyddyn a throsglwyddo costau staff craidd cymwys i Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol i wneud y defnydd gorau posibl o gyllid allanol;
- Adeiladau - arbedion oherwydd rhesymoli gofynion lletya yng Nghanolfan Menter y Cymoedd yn rhannol wedi'u gwrthbwysu gan gostau ychwanegol o ddefnyddio cyfleusterau allanol;
- Cludiant - mae gwariant yn ymwneud â threuliau teithio staff o ganlyniad i arferion gwaith yn dychwelyd yn ôl i "Fusnes fel Arfer" ar ôl y pandemig;

- Cyflenwadau a Gwasanaethau - yn cynnwys costau untro ar gyfer gwariant TGCh ar Galedwedd ac Offer Swyddfa a dyraniad tanwariant yn ystod y flwyddyn i'r gronfa ailfodelu Gwasanaeth a glustnodwyd;
- Gwasanaethau Cymorth - gwasanaethau ychwanegol a dderbyniwyd gan yr awdurdod cynnal i ddiwallu anghenion busnes; ac
- Incwm - yn ymwneud â llog heb ei gyllidebu a enillwyd ar falansau cyfrifon personol.

Yn ychwanegol, proseswyd y categorïau incwm a gwariant canlynol yn gysylltiedig â grantiau penodol trwy gyfrifon Consortiwm Canolbarth y De yn ystod 2022/23:

	<b>Gwirioneddol £'000</b>
<b>Gwariant</b>	
Cyflogeion	4,628
Adeiladau	16
Cludiant	22
Cyflenwadau a Gwasanaethau	86,969
Taliadau i Drydydd Partïon	1,645
<b>Incwm</b>	
Grantiau ac Incwm Arall	(93,280)
<b>Gwariant Net</b>	<b>0</b>

Mae symudiad mewn cronfeydd wrth gefn (£664k) a llog ar y balans cyfrif personol (£104k) wedi'u cynnwys yn y tablau uchod ond ni chânt eu datgelu yn Nodyn 7: Incwm.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd Consortiwm Canolbarth y De yn dal Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol o £174k (£174k ar 31 Mawrth 2022). Ceir manylion am symudiadau cronfeydd wrth gefn o fewn y Datganiad Symudiadau Cronfeydd Wrth Gefn.

#### 4. **Gwariant Cyfalaf 2022/23**

Ni fu unrhyw wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

#### 5. **Crynodeb o Gynlluniau Refeniw yn y Dyfodol**

Cymeradwywyd Cynllun Busnes y Consortiwm 2022-25 gan y Cyd-bwyllgor ar 17 Mawrth 2022 ac mae'n amlinellu'r weledigaeth, y diben a'r blaenoriaethau y mae'n anelu at eu cyflawni mewn amgylchedd o adnoddau yn lleihau. Mae Cynllun Busnes 2022-23 yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau troswaol canlynol:

1. Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel;
2. Datblygu arweinwyr ysbrydoledig i hwyluso cydweithio i godi safonau;
3. Datblygu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i les, tegwch a rhagoriaeth;
4. Datblygu trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn sy'n cefnogi systemau hunanwella; a
5. Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Consortiwm Canolbarth y De.

Mae angen i'r blaenoriaethau sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Busnes Consortiwm Canolbarth y De gael eu hategu gan reolaeth ariannol gadarn o ran sicrhau eu bod yn fforddiadwy, yn darparu gwerth am arian ac y gellir asesu eu heffaith.

Caiff y gyllideb refeniw ei chymeradwyo bob blwyddyn gan y Cyd-bwyllgor a'i chynnwys yn y Cynllun Busnes. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi setliadau blynyddol ar ddyfarnu cyllid trwy grantiau.

Mae crynodeb o'r gyllideb refeniw ddiweddaraf (h.y. 2023/24) fel a ganlyn (fel a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor ar 13 Rhagfyr 2022):

<b>Math o Wariant</b>	<b>Cyllideb 2023/24 £'000</b>
<b>Gwariant</b>	
Cyflogeion	3,112
Adeiladau	104
Cludiant	29
Cyflenwadau a Gwasanaethau	174
Taliadau i Drydydd Partïon	0
Gwasanaethau Cymorth	150
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>3,569</b>
<b>Incwm</b>	
Cyfraniadau Awdurdodau Lleol	3,516
Grantiau ac Incwm Arall	20
Cyllid Trosiannol	33
<b>Cyfanswm yr Incwm</b>	<b>3,569</b>
<b>Gwariant Net</b>	<b>0</b>



## 6. Asedau ac Atebolwyddau Pensiynau

O ganlyniad i Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 “Buddion Cyflogeion”, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol gyfrif am atebolwyddau pensiynau o ran cost y penderfyniadau a wnaed hyd at ddyddiad y Fantolen. Cyfeiriwch at nodyn 15.0 i’r Datganiadau Ariannol Craidd am ragor o fanylion.

Mae effaith IAS 19 ar gronfeydd wrth gefn y Cyd-bwyllgor fel a ganlyn:

	<b>£’000</b>
Asedau Net/(Atebolwyddau) ac eithrio Cronfa Wrth Gefn Pensiynau	1,227
Asedau Net/(Atebolwyddau) yn unol â’r Fantolen	7,085

## 7. Cyflwyniad i Ddatganiadau Cyfrifyddu

### **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon**

Mae hwn yn amlinellu cyfrifoldebau’r Cyngor fel yr awdurdod gweinyddu a’r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen ar gyfer paratoi’r Datganiad o Gyfrifon. Rhaid i’r Datganiad gael ei lofnodi a’i ddyddio gan yr Aelod Llywyddol yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor lle cymeradwyir y Gyfrifon.

### **Tystysgrif y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen**

Dyma dystysgrif cyflwyniad gwirioneddol a theg y Gyfrifon gan y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen.

### **Symudiadau yn y Datganiad o Gronfeydd Wrth Gefn**

Mae’r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyd-bwyllgor, sydd wedi eu dadansoddi yn ‘gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’ (h.y. y rheiny y gallai’r Cyd-bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnyddio) a ‘chronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy’.

### **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**

Caiff y datganiad hwn ei baratoi i gofnodi incwm a gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys eitemau fel cyflogau a thaliadau, costau cynnal y gwasanaeth a'r incwm a dderbyniwyd. Mae'r datganiad wedi'i seilio ar IFRS.

### **Mantolen**

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r atebolrwyddau a gydnabuwyd gan y Cyd-bwyllgor fel y maent ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-bwyllgor (asedau heb atebolrwyddau) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyd-bwyllgor.

### **Datganiad Llif Arian**

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian parod a chyfwerthoedd arian parod y Cyd-bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd.

### **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid**

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn dangos sut mae'r cyllid sydd ar gael i'r Cyd-bwyllgor ar gyfer y flwyddyn wedi cael ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

### **Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu**

Diben y datganiad hwn yw esbonio sail y ffigurau yn y cyfrifon. Mae'n amlinellu'r polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd.

### **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi'r fframwaith ar gyfer llywodraethu a rheolaeth fewnol i'r Cyd-bwyllgor gyflawni ei swyddogaethau ac mae'n adolygu ei effeithiolrwydd. Mae'n amlinellu prif elfennau'r fframwaith, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer Archwilio Mewnol a'r modd y mae'r Consortiwm wedi cydymffurfio ag elfennau amrywiol y fframwaith.

## **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortium Canolbarth y De**

### **Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol y Cyd-bwyllgor yn briodol, a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog hwnnw yw'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen.
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, a diogelu ei asedau.

### **Cyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor**

- Cymeradwyo'r cyfrifon.

*Rhiannar A. Birch*

Llofnod: \_\_\_\_\_

Dyddiad: 08-11-2023

**Cadeirydd Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg Ar y Cyd Consortium Canolbarth y De**

## **Cyfrifoldebau'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen**

Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon. O ran Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, mae'n ofynnol i'r Datganiad o Gyfrifon roi barn gywir a theg ar sefyllfa ariannol y sefydliad ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

### **Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen wedi:**

- Dewis polisiâu cyfrifyddu addas ac wedyn eu cymhwysu'n gyson.
- Llunio barnau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus.
- Cydymffurfio â'r Cod.

### **Trwy gydol y flwyddyn ariannol, mae'r Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen hefyd wedi:**

- Cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn cael eu diweddarau'n gyson.
- Cymryd camau rhesymol ar gyfer atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

### **Tystysgrif y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen fel Trysorydd y Cyd-bwyllgor**

Rwy'n cadarnhau bod y datganiad o gyfrifon yn rhoi barn gywir a theg ar sefyllfa ariannol y Cyd-bwyllgor ar 31 Mawrth 2023 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnodwyd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

**Barrie Davies**

**Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Cyllid,  
Digidol a Rheng Flaen** The Pavilions, Cambrian Way, Cwm Clydach, Rhondda  
Cynon Taf  
CF40 2XX

### Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

	Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnfydd- iadwy	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Nodiadau:</b>	13.1	13.2	13.0	14.0	
<b>Balans ar 1 Ebrill 2021</b>	<b>147</b>	<b>599</b>	<b>746</b>	<b>(276)</b>	<b>470</b>
<b>Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2021/22</b>					
<b>Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr</b>	<b>(1,603)</b>	<b>0</b>	<b>(1,603)</b>	<b>2,554</b>	<b>951</b>
<b>Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau</b>					
<b>Addasiadau yn cynnwys y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau:</b>					
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddion ymddeol wedi eu debydu neu'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,695	0	<b>1,695</b>	(1,695)	<b>0</b>
Cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn ystod y flwyddyn	(226)	0	<b>(226)</b>	226	<b>0</b>
<b>Addasiadau yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn bennaf:</b>					
Mae cyfanswm y taliadau i swyddogion a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronladau yn wahanol i daliadau a godir yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	15	0	<b>15</b>	(15)	<b>0</b>
<b>Cynnydd neu (ostyngiad) net cyn trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi</b>	<b>(119)</b>	<b>0</b>	<b>(119)</b>	<b>1,070</b>	<b>951</b>
Trosglwyddiadau i neu (o) Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	146	(146)	<b>0</b>	0	<b>0</b>
<b>Cynnydd neu (ostyngiad) yn ystod y Flwyddyn</b>	<b>27</b>	<b>(146)</b>	<b>(119)</b>	<b>1,070</b>	<b>951</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>174</b>	<b>453</b>	<b>627</b>	<b>794</b>	<b>1,421</b>

**Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023**

	Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnydd- iadwy	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Nodiadau:</b>	13.1	13.2	13.0	14.0	
<b>Balans ar 1 Ebrill 2022</b>	<b>174</b>	<b>453</b>	<b>627</b>	<b>794</b>	<b>1,421</b>
<b>Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2022/23</b>					
<b>Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr</b>	<b>(925)</b>	<b>0</b>	<b>(925)</b>	<b>6,589</b>	<b>5664</b>
<b>Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau</b>					
<b>Addasiadau yn cynnwys y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau:</b>					
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â buddion ymddeol wedi eu debydu neu'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	1,848	0	<b>1,848</b>	(1,848)	<b>0</b>
Cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn ystod y flwyddyn	(274)	0	<b>(274)</b>	274	<b>0</b>
<b>Addasiadau yn cynnwys y Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn bennaf:</b>					
Mae cyfanswm y taliadau i swyddogion a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau yn wahanol i daliadau a godir yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	15	0	<b>15</b>	(15)	<b>0</b>
<b>Cynnydd neu (ostyngiad) net cyn trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi</b>	<b>(664)</b>	<b>0</b>	<b>(664)</b>	<b>5,000</b>	<b>5,664</b>
Trosglwyddiadau i neu (o) Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	(664)	(664)	<b>0</b>	0	<b>0</b>
<b>Cynnydd neu (ostyngiad) yn ystod y flwyddyn</b>	<b>0</b>	<b>(664)</b>	<b>(664)</b>	<b>5,000</b>	<b>5,664</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>174</b>	<b>1,117</b>	<b>1,291</b>	<b>5,794</b>	<b>7,085</b>

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

Blwyddyn a ddaeth i ben 31/03/22 £'000		Blwyddyn a ddaeth i ben 31/03/23 £'000	Nodyn
8,041	<b>Gwariant</b>	9,062	5.0
155	Cyflogeion	129	
13	Adeiladau	48	6.0
88,611	Cludiant	86,898	
2,478	Cyflenwadau a Gwasanaethau	1,673	
126	Taliadau i Drydydd Partïon	170	
<b>99,424</b>	Gwasanaethau Cymorth	<b>97,980</b>	
(3,564)	<b>Incwm</b>	(3,625)	7.0
(94,255)	Cyfraniadau Awdurdodau Lleol	(93,300)	
<b>(97,819)</b>	Grantiau ac Incwm Arall	<b>(96,925)</b>	
<b>1,605</b>	<b>Cost Net Gwasanaethau</b>	<b>1,055</b>	15.2
(4)	Llog Derbyniadwy ac Incwm Tebyg	(104)	
2	Llog Net ar Ased/Atebolwydd Net Diffiniedig	(26)	
<b>1,603</b>	<b>(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>925</b>	
(2,554)	Ailfesur yr Atebolwydd Buddion Net Diffiniedig	(6,589)	15.2
<b>(951)</b>	<b>Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(5,664)</b>	

**Mantolen ar 31 Mawrth 2023**

<b>31/03/22</b> <b>£'000</b>		<b>31/03/23</b> <b>£'000</b>	<b>Nodyn</b>
843	<b>Asedau Hirdymor</b> Ased Cynllun Pensiwn Buddion wedi'u Diffinio	5,858	15.5
<b>843</b>	<b>Cyfanswm Asedau Hirdymor</b>	<b>5,858</b>	
1,435	<b>Asedau Cyfredol</b> Dyledwyr	2,317	11.0
<b>1,435</b>	<b>Cyfanswm Asedau Cyfredol</b>	<b>2,317</b>	
(856)	<b>Atebolrwyddau Cyfredol</b> Credydwyr	(1,090)	12.0
<b>578</b>	<b>Asedau Cyfredol Net</b>	<b>1,227</b>	
<b>578</b>	<b>Cyfanswm yr Asedau Llai Atebolrwyddau Cyfredol</b>	<b>1,227</b>	
(0)	<b>Atebolrwyddau Hirdymor</b> Atebolrwydd Cynllun Pensiwn Buddion wedi'u Diffinio	0	15.5
<b>1,421</b>	<b>Asedau/(Atebolrwyddau) Net</b>	<b>7,085</b>	
	<b>Cynrychiolir gan y canlynol:</b>		
174	<b>Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy</b> Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	174	13.1
453	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	1,117	13.2
843	<b>Cronfeydd Wrth Gefn Andefnyddiadwy</b> Cronfa Wrth Gefn Pensiynau	5,858	15.5
(49)	Cyfrif Absenoldebau Cronnol Byrdymor a lawndalwyd	(64)	
<b>1,421</b>	<b>Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn</b>	<b>7,085</b>	



## Datganiad Llif Arian ar gyfer y Cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

Blwyddyn a ddaeth i ben 31/03/22 £'000		Blwyddyn a ddaeth i ben 31/03/23 £'000	Nodyn
	<b>Gweithgareddau Gweithredu</b>		
6,558	Llif Arian Parod Allan	7,447	
91,881	Arian Parod a Dalwyd i Gyflogeion ac ar eu Rhan Taliadau Arian Parod Gweithredol Eraill	88,699	
<b>98,439</b>	Cyfanswm All-lif Arian Parod	<b>96,146</b>	
(97,789)	Mewnlif Arian Parod	(96,926)	
(4)	Arian Parod a Dderbyniwyd am Nwyddau a Gwasanaethau Llog a Dderbyniwyd	(104)	
<b>(97,793)</b>	Cyfanswm Mewnif Arian Parod	<b>(97,030)</b>	
<b>646</b>		<b>(884)</b>	
<b>646</b>	<b>(Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian Parod a Chyferwerthoedd Arian Parod</b>	<b>(884)</b>	18.0
	<b>Dadansoddiad o Newidiadau mewn Arian Parod a Chyferwerthoedd Arian Parod</b>		
(1,984)	Balans ar 1 Ebrill	(1,338)	
646	(Mewnlif)/All-lif Arian Parod Net	(884)	
<b>(1,338)</b>	<b>Balans Arian Parod yn Ddyledus I /(Gan) yr Awdurdod Lletyol</b>	<b>(2,222)</b>	

Caiff yr holl drafodiadau arian parod eu gweinyddu gan CBS Rhondda Cynon Taf gan nad yw Consortiwm Canolbarth y De yn gweithredu ei gyfrif banc ei hun. Mae'r balans arian parod sy'n ddyledus i'r awdurdod lletyol neu gan yr awdurdod lleol lletyol wedi ei gynnwys mewn dyledwyr ar 31 Mawrth.

## Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022

	2021/22		
	Gwariant Net yn Daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau Rhwng Sail Cyllido a Chyfrifyddu	Gwariant Net ar gyfer Symiau Cyfatebol ar gyfer Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr <sup>4</sup>
	£'000	£'000	£'000
Cyflogeion	6,559	1,482	8,041
Adeiladau	155	0	155
Cludiant	13	0	13
Cyflenwadau a Gwasanaethau	88,611	0	88,611
Taliadau i Drydydd Partion	2,478	0	2,478
Gwasanaethau Cymorth	126	0	126
Incwm	(97,965)	146	(97,819)
<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>(23)</b>	<b>1,628</b>	<b>1,605</b>
Incwm a Gwariant Arall	(4)	2	(2)
<b>(Gwarged) neu Ddiffyg</b>	<b>(27)</b>	<b>1,630</b>	<b>1,603</b>
Agor y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2020	(147)		
Ychwanegu Gwarged ar y Gronfa Gyffredinol yn ystod y Flwyddyn	(27)		
<b>Cau'r Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>(174)</b>		

<sup>4</sup> Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

## Datganiad Dadansoddi Gwariant a Chyllid ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023

	2022/23		
	Gwariant Net yn Daladwy i'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau Rhwng Sail Cyllido a Chyfrifyddu	Gwariant Net ar gyfer Symiau Cyfatebol ar gyfer Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr <sup>5</sup>
	£'000	£'000	£'000
Cyflogeion	7,447	1,615	9,062
Adeiladau	129	0	129
Cludiant	48	0	48
Cyflenwadau a Gwasanaethau	86,898	0	86,898
Taliadau i Drydydd Partion	1,673	0	1,673
Gwasanaethau Cymorth	170	0	170
Incwm	(96,261)	(664)	(96,925)
<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>104</b>	<b>951</b>	<b>1,055</b>
Incwm a Gwariant Arall	(104)	(26)	(130)
<b>(Gwarged) neu Ddiffyg</b>	<b>0</b>	<b>925</b>	<b>925</b>
Agor y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2021	(174)		
Ychwanegu Gwarged ar y Gronfa Gyffredinol yn ystod y Flwyddyn	0		
<b>Cau'r Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>(174)</b>		

<sup>5</sup> Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

## **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd**

### **1.0 Polisiau Cyfrifyddu Arwyddocaol**

#### **1.1 Croniadau Gwariant ac Incwm**

Paratowyd cyfrifon y Cyd-bwyllgor ar sail cronriad incwm a gwariant yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gyfrif yn ystod y flwyddyn y caiff ei gynnal, nid pan gaiff taliadau arian parod eu gwneud neu'u derbyn.

Cydnabyddir refeniw o werthiant nwyddau a gwasanaethau pan fydd y Cyd-bwyllgor yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a gwobrwyon nwyddau, neu'n darparu'r gwasanaethau i'r prynwr, ac mae'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Cyd-bwyllgor.

Caiff cyflenwadau eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio.

Caiff treuliau yn gysylltiedig â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan gaiff taliadau eu gwneud.

Cyfrifir am log sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac yn daladwy ar fenthyciadau yn y drefn honno fel incwm a gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a bennwyd gan y contract. Adlewyrchir addasiadau statudol yn gysylltiedig â llog yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

#### **1.2 Arian Parod a Chyferthoedd Arian Parod**

Caiff yr holl drafodiadau arian parod eu gweinyddu gan CBS Rhondda Cynon Taf gan nad yw Consortiwm Canolbarth y De yn gweithredu ei gyfrif banc ei hun.

#### **1.3 Rhwymedigaethau Digwyddiadol**

Rhwymedigaeth ddigwyddiadol yw eitem bosibl o wariant sy'n codi o ddigwyddiadau blaenorol ac y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau yn unig gan un digwyddiad ansicr yn y dyfodol neu fwy nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y sefydliad.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol o'r fath eu hadlewyrchu mewn Darpariaethau yn y Fantolen gan na fydd efallai'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur cyfanswm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

## 1.4 **Cronfeydd wrth gefn**

Mae'r Cyd-bwyllgor yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu i gwmpasu argyfyngau. Ystyrir mai Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yw'r rhain. Caiff Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi eu creu trwy neilltuo symiau allan o'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan geir gwariant fydd yn cael ei ariannu o gronfa wrth gefn, codir y tâl am y gwariant i'r gwasanaeth priodol yn ystod y flwyddyn honno. I sicrhau nad yw hyn yn gost yn erbyn Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol, ariennir y gwariant trwy addasiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer ymdddeol a buddion cyflogeion, ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy ar gyfer y Cyd-bwyllgor.

## 1.5 **Buddion Cyflogeion**

Caiff yr holl gostau'n ymwneud â buddion cyflogeion eu cyfrif ar sail croniadau.

### **Pensiynau**

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn ar wahân.

Staff ar Delerau ac Amodau Athrawon - Cynllun heb ei ariannu yw hwn, a weinyddir gan yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon. Mae'r Asiantaeth yn gosod cyfraddau cyfraniadau ar sail cronfa dybiannol. Er mai cynllun â buddion wedi'u diffinio yw hwn, ni all yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon nodi cyfran asedau ac atebolrwyddau sylfaenol y Cyd-bwyllgor, ac yn unol â hynny, mae'r Cyd-bwyllgor wedi cyfrif am ei gyfraniadau at y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

Cyflogeion eraill - mae CBS Rhondda Cynon Taf yn gweinyddu cronfa ar ran cyflogeion o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (fel y'i diwygiwyd), ac o dan hyn, gosodir cyfraddau cyfraniadau gan actiwari'r Gronfa wedi eu seilio ar brisiadau actiwaraid bob tair blynedd. O dan y rheoliadau, gosodir cyfraddau cyfraniadau er mwyn arwain at ariannu atebolrwydd cyffredinol y Gronfa dros gyfnod yn llawn. Cyfrifir am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel Cynllun â Buddion wedi'u Diffinio.

- Mae atebolrwyddau Cronfa Pensiwn Rhondda Cynon Taf y gellir eu priodoli i'r Cyd-bwyllgor wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid gan ddwyn ymlaen y canlyniadau o'r prisiad llawn diwethaf a'u haddasu i ganiatáu ar gyfer y dyddiad cyfrifo diweddarach ac ystyried newidiadau o ganlyniad i gronni buddion newydd a chyflawni atebolrwyddau,

rhagdybiaethau ariannol a demograffig, effaith profiad hysbys ac effaith digwyddiadau sy'n arwain at newid mewn atebolrwydd.

- Gostyngir atebolrwyddau i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 4.7% (2.7% yn 2021/22).
- Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn gynllun aml-gyflogwr. Ni chaiff asedau'r Gronfa eu dyrannu'n ffurfiol i unrhyw gyflogwr o fewn y Gronfa ac nid ydynt yn eiddo cyfreithiol i unrhyw gyflogwr o fewn y Gronfa. At ddiben cwblhau cyfrifiadau ar gyfer pob prisiad tair blynedd o'r Gronfa, mae'r actiwari yn cyfrifo dyraniad tybiannol asedau ar gyfer pob cyflogwr. Mae asedau'r Gronfa Bensiwn a briodolir yn dybiannol i'r Cyd-bwyllgor wedi eu cynnwys yn y Fantolen am eu gwerth teg:

Gwarannau a Ddyfynnwyd	–	Pris y Cais Cyfredol
Gwarannau Unedol	–	Pris y Cais Cyfredol
Eiddo	–	Gwerth y Farchnad

- Dadansoddir y newid yn yr ased / atebolrwydd pensiynau net yn ôl yr elfennau canlynol:
  - Cost Gwasanaeth Cyfredol – y cynnydd mewn atebolrwyddau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni wedi ei ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r cyflogeion yn gweithio iddynt, yn ogystal â threuliau gweinyddu.
  - Cost Gwasanaeth yn y Gorffennol – y cynnydd mewn atebolrwyddau yn deillio o benderfyniadau'r flwyddyn bresennol y mae ei effaith yn ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol wedi'i ddebydu i'r (Gwarged) neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Cost Llog – y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol atebolrwyddau yn ystod y flwyddyn wrth iddynt symud flwyddyn yn agosach at gael eu talu – wedi ei gredu/ei ddebydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Enillion Disgwyliedig ar Asedau – enillion blynyddol y buddsoddiad ar asedau'r gronfa y gellir eu priodoli i'r Cyd-bwyllgor, ar sail cyfartaledd yr enillion hirdymor disgwyliedig – wedi ei gredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  - Enillion a Cholledion Actiwaraid – newidiadau yn yr atebolrwydd pensiynau net sy'n codi am nad yw digwyddiadau wedi cydreddeg â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu gan fod yr actiwaraid wedi diweddarau eu rhagdybiaethau ariannol, demograffig neu drwy brofiad – wedi eu debydu neu'u credu i'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau.
  - Cyfraniadau a Delir i'r Gronfa Bensiwn – arian parod a delir fel cyfraniadau cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn wrth setlo atebolrwyddau; ni

chyfrifir amdanynt fel traul yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

O ran buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi'r swm sy'n daladwy gan y Cyd-bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn ar Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol y Cyd-bwyllgor neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod dyraniadau i'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn, ac ohoni, i ddileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol, a'u disodli â'r arian parod a delir i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Felly, mae'r balans sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn mesur yr effaith ar y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol o fod yn ofynnol i gyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag ar fuddion a enillir gan gyflogaion.

### **Buddion Dewisol**

Gall y Cyd-bwyllgor wneud dyfarniadau dewisol o ran buddion ymddeol yn achos ymddeoliadau cynnar. Caiff unrhyw atebolwyddau o'r fath sy'n codi eu cronni yn ystod y flwyddyn benderfynu fel bod y dyfarniad yn gydnaws â rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### **Absenoldebau Cronnol**

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cronni gwyliau staff a enillwyd ond na chymerwyd ar ddiwedd pob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau i liniaru effaith y gost hon. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi manteisio ar y rheoliadau ac wedi codi'r costau ychwanegol i'r Cyfrif Absenoldebau Cronnol Byrdymor a lawndalwyd mewn Cronfeydd Wrth Gefn Annefyddiadwy.

## **1.6 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill**

Cyfrifir am grantiau a chyfraniadau eraill yn ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw ar sail croniadau, ac fe'u cydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd sicrwydd rhesymol:

- y cydymffurfiwyd/cydymffurfir â'r amodau ar gyfer eu derbyn; a
- y bydd y grant neu'r cyfraniad yn cael ei dderbyn.

Caiff arian a dalwyd o flaen llaw, lle nad oes unrhyw sicrwydd rhesymol am y ddau faen prawf uchod, ei ddal fel credydwy'r yn y Fantolen.

Pan gydnabuwyd grant refeniw yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond nad yw wedi cael ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant, caiff ei osod o'r neilltu fel Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi.

Pan na fydd cais wedi cael ei gymeradwyo gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a Rennir eto, caiff gwerthoedd y Fantolen o ran grantiau eu cynnwys ar sail cais drafft heb ei archwilio.

## 1.7 **Prydlesi**

Mae p'un a yw prydles yn brydles cyllid neu'n brydles weithredu yn dibynnu ar sylwedd y trafodiad yn hytrach na'r ffurf gyfreithiol. Caiff prydlesi eu hadolygu ar y dechrau, a'u dosbarthu fel prydlesi cyllid neu brydlesi gweithredu trwy drefniadau adolygu, fel:

- Trosglwyddo perchnogaeth ar ddiwedd contract y brydles.
- Opsiwn i brynu ased ar bris yn is na'r gwerth teg.
- Mae tymor prydles am ran fawr o oes economaidd yr ased.
- Mae gwerth cyfredol isafswm taliadau prydles gyfwerth ag o leiaf y cyfan i raddau helaeth o werth teg yr ased wedi'i brydlesu.
- Mae asedau wedi eu prydlesu yn arbenigol, a dim ond y lesddeiliad all eu defnyddio heb addasiadau mawr.

### **Prydlesi Cyllid**

Mae prydles cyllid yn un sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ased i'r lesddeiliad.

Pan fydd y Cyd-bwyllgor yn lesddeiliad, cydnabyddir ased ac atebolrwydd ar ddechrau'r brydles. Caiff yr ased ei ddibrisio a'i ailbriso yn dilyn hynny fel pe bai'n eiddo cyfreithiol y Cyd-bwyllgor. Mae'r atebolrwydd yn lleihau wrth i daliadau'r brydles gael eu gwneud.

### **Prydlesi Gweithredu**

Ystyrir bod prydles weithredu yn unrhyw brydles heblaw Prydles Cyllid.

Pan fydd y Cyd-bwyllgor yn lesddeiliad, cydnabyddir taliadau prydles fel traul yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail llinell syth oni bai fod sail systematig arall yn fwy cynrychioliadol o'r buddion a dderbyniwyd.

## 1.8 **Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd**

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r rheiny sy'n ffafriol ac yn anffafriol sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi.

Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad, sef:



- a) y rheiny sy'n darparu tystiolaeth o amodau sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd (addasu digwyddiadau a fydd yn cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol); a'r
- b) rheiny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd (digwyddiadau nad ydynt yn addasu na chânt eu hadlewyrchu mewn datganiadau cyfrifyddu ond ble caiff datgeliad perthnasol ei wneud yn y Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd).

## **2.0 Safonau Cyfrifyddu a Gyflwynwyd, ond heb eu Mabwysiadu**

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth yn gysylltiedig ag effaith ddisgwyliedig newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon newydd a gyflwynwyd ond nad yw wedi cael ei mabwysiadu eto. Yn y cyfamser, mae safonau a allai fod yn berthnasol yn cynnwys:

- IFRS 16 Prydlesi (ond dim ond ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi penderfynu mabwysiadu IFRS 16 yn y flwyddyn 2023/24).
- Pan fabwysiadodd awdurdod IFRS 16 yn 2022/23 ond dewisodd ohirio gweithredu IFRS 16 i drefniadau PFI/PPP tan 2023/24, bydd angen gwybodaeth am y newid cyfrifyddu mwy penodol yn eu datganiadau cyfrifon 2022/23.
- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifeg (Diwygiadau i IAS 8) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- Datgelu Polisiâu Cyfrifyddu (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer IFRS 2) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- Treth Gohiriedig sy'n gysylltiedig ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n codi o Drafodiad Sengl (Diwygiadau i IAS 12) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021.
- Diweddarau Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020.

Ni ragwelir y bydd y diwygiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar Ddatganiad o Gyfrifon y Consortiwm.

## **3.0 Barnau Hanfodol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifyddu**

Wrth gymhwyso'r Polisiâu Cyfrifyddu a amlinellir yn nodyn 1.0, bu'n rhaid i'r Cyd-bwyllgor lunio barnau penodol am drafodiadau cymhleth a'r rheiny sy'n cynnwys ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol. Dyma'r barnau hanfodol a luniwyd yn y Datganiad o Gyfrifon:

### **3.1 Grantiau ac Amodau Cyfraniadau**

Caiff barnau eu llunio mewn telerau amodau sydd ynghlwm wrth grantiau refeniw. Cydnabyddir grantiau fel incwm pan gânt eu derbyn/pan fyddant yn dderbyniadwy. Oni bai fod rhagdybiaethau fod amodau'r grant yn cael eu torri, ni chydabyddir rhwymedigaeth o ran dychwelyd. O ganlyniad, caiff grantiau refeniw a dderbynnir heb unrhyw rwymedigaeth ddisgwyliedig o ran dychwelyd a fydd yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant yn y dyfodol eu hadlewyrchu mewn Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi yn y Fantolen.

### **4.0 Rhagdybiaethau a Wneir Am y Dyfodol a Phrif Ffynonellau Eraill Ansicrwydd ynghylch Amcangyfrif**

#### Ased/Atebolrwydd Pensiynau Pensions Asset/Liability

- 4.1 Mae amcangyfrif yr ased/atebolrwydd net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o farnau cymhleth yn gysylltiedig â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y bwriedir i gyflogau gynyddu arni, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac enillion disgwyliedig ar asedau cronfa bensiwn. Mae AON yn cael ei gyflogi i roi cyngor i'r Cyd-bwyllgor am y rhagdybiaethau y dylid eu cymhwyso.

#### Effaith COVID

Roedd prisiad 2022 yn cynnwys rhagdybiaethau actiwaraidd o effaith Covid-19 ar dueddiadau marwolaethau tymor hir. Nid yw'r actiwari wedi gwneud unrhyw addasiadau pellach i'r rhagdybiaethau marwolaethau ar gyfer COVID-19.

#### Cydraddoli a mynegeio Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)

Mae'r datgeliadau yn caniatáu ar gyfer cynnydd pensiwn yn unol â chyfradd chwyddiant llawn y CPI i'w dalu ar Bensiwn Isafswm Gwarantedig (GMP) ar gyfer y rheiny sy'n cyrraedd oedran Pensiwn Gwladol ar 6 Ebrill 2016 neu ar ôl hynny. Mae hyn yn cydnabod cost ymrwymiad y Llywodraeth i ddigolledu aelodau'r cynllun gwasanaeth cyhoeddus yn sgil dileu'r elfen Pensiwn Ychwanegol o'r Pensiwn Gwladol o'r dyddiad hwn, ac am ganlyniad dyfarniad Lloyds a ganfu fod GMPau yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw.

Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod na fydd yr ateb hwn yn mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb rhyw i leiafrif o aelodau ac mae disgwyl arweiniad pellach gan DLUHC ar sut maen nhw'n bwriadu delio â hyn. Disgwylir i'r anghydraddoldebau hyn fod yn fach.

Ym mis Hydref 2020, eglurodd ail ddyfarniad yn achos banc Lloyds y byddai angen iawndal ar aelodau a drosglwyddodd fuddion allan ers mis Mai 1990. Nid yw'r Llywodraeth wedi cydnabod atebolrwydd eto mewn cynlluniau gwasanaeth cyhoeddus nac wedi nodi dull o unioni hyn. Felly, nid oes unrhyw lwfans ar gyfer unrhyw atebolrwydd posibl yn ymwneud ag ail ddyfarniad Lloyds wedi'i gynnwys yn y cyfrifon.

### Dyfarniad Goodwin

Ym mis Mehefin 2020, dyfarnodd Tribiwnlys Cyflogaeth, mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Athrawon, fod darpariaethau ar gyfer buddion goroeswr aelod benywaidd mewn priodas â rhywun o'r rhyw arall yn llai ffafriol nag ar gyfer menyw mewn priodas neu bartneriaeth sifil gyda rhywun o'r un rhyw, a bod y driniaeth yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Cyhoeddodd prif ysgrifennydd y Trysorlys mewn datganiad gweinidogol ar 20 Gorffennaf 2020 ei fod yn credu y byddai angen newidiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill gyda threfniadau tebyg. Gan nad yw'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu eto yn y rheoliadau LGPS, a hefyd ar sail perthnasedd, ni wnaed unrhyw lwfans yn y cyfrifiadau.

### Dyfarniad McCloud / Sargeant

Canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau amddiffyn wrth bontio a gyflwynwyd pan ddiwygiwyd cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a barnwyr yn gwahaniaethu ar sail oedran. Ceir goblygiadau yn hyn i gynlluniau eraill y sector cyhoeddus a ddiwygiwyd tua'r un adeg (gan gynnwys yr LGPS), a gallai, o bosibl, arwain at ddigolledu aelodau y tybiwyd y gwahaniaethwyd yn eu herbyn. Gwrthododd y Goruchaf Lys gais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio yn erbyn y dyfarniad hwn ar 27 Mehefin 2019. Cyfeiriwyd y mater at Dribiwnlysoedd Cyflogaeth ar gyfer gwrandawiadau rhwymedi, a chynhaliodd y Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) (yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau bellach) ymgynghoriad ar y rhwymedi a chadarnhaodd y byddent yn bwrw ymlaen â'r egwyddorion allweddol fel y'u pennwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd y ffigurau a gynhyrchwyd gan AON ar gyfer datgeliadau 2020/21 yn cynnwys atebolrwydd tanategol McCloud o fewn y gost gwasanaethau bresennol, ynghyd â lwfans yn adlewyrchu gwasanaeth ers y diwygiadau i'r cynllun (2014 yng Nghymru). Mae'r un ymagwedd wedi'i mabwysiadu ar gyfer 2021/22. Mae'r dull a ddefnyddiwyd gan AON i brisio rhwymedi McCloud ac a ddatgelir yn y Datganiad o Gyfrifon felly, yn gyson â'r hyn a gynigiwyd gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn ymgynghoriad Gorffennaf 2020.

### Proses Rheoli Costau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i Drysorlys EM a Bwrdd Cynghori'r Cynllun gynnal prisiau o dro i dro i fonitro cost y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy a

fforddiadwy. Gelwir hyn yn “Broses Rheoli Costau”. Ni argymhellodd canlyniadau'r adolygiadau unrhyw newidiadau i ddarpariaethau'r cynllun. Fodd bynnag mae cyfreithlondeb penderfyniad y Llywodraeth i gynnwys costau McCloud fel cost aelodau o fewn proses 2016 Trysorlys Ei Mawrhydi yn cael ei herio gan Adolygiad Barnwrol a ddygwyd gan undebau llafur. Os yw'r Adolygiad Barnwrol yn llwyddiannus, gallai hyn achosi i broses 2016 Trysorlys Ei Mawrhydi gael ei chynnal eto, a gallai arwain at newidiadau i fuddion neu gyfraniadau aelodau a fydd yn cael eu hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2019.

Nid oes unrhyw lwfans wedi'i wneud ar gyfer cost bosibl gwella buddion aelodau o dan yr adolygiadau hyn.

## 5.0 Costau Cyflogeion

2021/22 £'000	Cyflog a Thaliadau	2022/23 £'000
5,002	Ymgynghorwyr	5,722
845	Gweinyddu	1,000
466	Rheoli	454
204	Tîm Cyllid	218
1	Asiantaeth	0
0	Diswyddo gweithwyr	16
35	Yswiriant Cyflogeion	35
6	Hysbysebion Cyflogeion	2
<b>6,559</b>	<b>Is-gyfanswm</b>	<b>7,447</b>
	Addasiad i'r Cyfrif Absenoldebau Cronnol	
15	Byrdymor a lawndalwyd	15
1,467	Addasiadau IAS 19	1,600
<b>8,041</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>9,062</b>

## 6.0 Cyflenwadau a Gwasanaethau

2021/22 £'000		2022/23 £'000
150	Treuliau Swyddfa	159
594	Ffioedd Ymgynghorwyr	344
54	Costau Cyfrifiaduron	37
7	Llungopio	6
3	Tanysgrifiadau	4
3	Marchnata	7
18	Ffioedd Archwilio	18
6	Ffonau	6
92	Hyfforddiant	106

	<u>Grantiau a dalwyd i awdurdodau lleol ac ysgolion:</u>	
50,784	Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (RCSIG)	43,464
36,380	Grant Datblygu Disgyblion	42,200
520	Arall	547
<b>88,611</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>86,898</b>

## 7.0 Incwm

2021/22 £'000		2022/23 £'000
	<b>Cyfraniadau</b>	
(1,293)	Cyngor Caerdydd	(1,327)
(966)	CBS Rhondda Cynon Taf	(977)
(549)	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	(554)
(529)	Cyngor Bro Morgannwg	(538)
(227)	CBS Merthyr Tudful	(229)
<b>(3,564)</b>	<b>Cyfanswm y Cyfraniadau</b>	<b>(3,625)</b>
	<b>Incwm Arall</b>	
(55)	Arall	(32)
(94,200)	Grantiau	(93,268)
<b>(94,255)</b>	<b>Cyfanswm Incwm Arall</b>	<b>(93,300)</b>
<b>(97,819)</b>	<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(96,925)</b>

## 7.1 Incwm Grant

2021/22 £'000		2022/23 £'000
	<b>Rhaglen Grantiau</b>	
(37,582)	Y Grant Datblygu Disgyblion	(43,484)
(55,866)	Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (RCSIG)	(48,891)
(752)	Arall	(893)
<b>(94,200)</b>	<b>Cyfanswm Incwm Grantiau</b>	<b>(93,268)</b>
	<b>Dyraniad</b>	
87,684	Talwyd i awdurdodau lleol ac ysgolion (Nodyn 6.0)	86,211
6,516	Cadwyd gan Gonsortium Canolbarth y De	7,057
<b>94,200</b>	<b>Cyfanswm y Dyraniad</b>	<b>93,268</b>

## 8.0 Trafodiadau Parti Cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24, mae gan y Cyd-bwyllgor ddyletswydd i ddatgelu unrhyw drafodiadau perthnasol gyda "pharti cysylltiedig". Mae hyn i sicrhau bod datganiadau ariannol yn cynnwys datgeliadau sy'n angenrheidiol i dynnu sylw at y posibilrwydd y gallai'r sefyllfa a'r canlyniadau ariannol a adroddwyd fod wedi cael eu heffeithio gan fodolaeth partïon cysylltiedig a chan drafodiadau perthnasol gyda nhw.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnal trafodion â'r awdurdodau lleol a'i ysgolion o fewn y Consortiwm, yn dosbarthu cyllid, ac yn darparu gwasanaethau cynghori ac arolygu y mae'n derbyn incwm ar eu cyfer. Yn ystod y flwyddyn, cododd trafodiadau perthnasol gyda'r partïon cysylltiedig hyn fel a ganlyn:

2021/22		Awdurdod Lleol	2022/23	
Gwar. £'000	Inc. £'000		Gwar. £'000	Inc. £'000
34,667	(1,293)	Cyngor Caerdydd	35,402	(1,327)
24,699	(997)	CBS Rhondda Cynon Taf	23,832	(1,081)
13,756	(549)	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	11,659	(554)
12,059	(529)	Cyngor Bro Morgannwg	10,313	(538)
5,768	(227)	CBS Merthyr Tudful	7,255	(229)

Mae incwm a dderbyniwyd oddi wrth CBS Rhondda Cynon Taf (£104k) yn sgil llog a dderbyniwyd wedi ei gynnwys yn y tabl uchod ond nid wedi ei gynnwys yn Nodyn 7.0 gan nad yw'n ffurfio rhan o gyfraniadau craidd yr Awdurdodau Lleol a dderbyniwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn dylanwadu'n sylweddol trwy ddeddfwriaeth a chyllid grant. Dangosir y prif grantiau a dderbyniwyd yn Nodyn 7.1.

Caiff yr holl drafodiadau arian parod eu gweinyddu gan yr awdurdod lleol, sef CBS Rhondda Cynon Taf gan nad yw'r Consortiwm yn gweithredu ei gyfrif banc ei hun. Ar 31 Mawrth 2023, roedd ar CBS Rhondda Cynon Taf £2,222k i'r Consortiwm yn gysylltiedig â'r trafodiadau arian parod hyn (roedd ar CBS Rhondda Cynon Taf £1,338k i'r Consortiwm ar 31 Mawrth 2022). Yn ystod 2022/23, cododd CBS Rhondda Cynon Taf £170k ar Gonsortiw Canolbarth y De o ran Costau Sefydlu Canolog (maent wedi eu cynnwys yn y tabl uchod, £126k yn 2021/22).

Gwneir cyfraniadau pensiwn i Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon, o ran cyflogeion y Cyd-bwyllgor. Gweler nodiadau 15.0 a 16.0 am ragor o wybodaeth.

Caiff buddiannau Aelodau Etholedig y Cyd-bwyllgor eu cynnal mewn cofrestr a ddelir gan eu Hawdurdod Lleol eu hunain. Caiff cofnodion o fuddiannau Uwch Swyddogion eu cynnal gan y Consortiwm. Digwyddodd y trafodion canlynol gyda phartïon cysylltiedig (yn sgil buddiannau Aelodau Etholedig ynddynt) y bu'r Cyd-bwyllgor yn delio â nhw:

2021/22		Sefydliad	2022/23	
Gwar. £'000	Inc. £'000		Gwar. £'000	Inc. £'000
7	0	Prifysgol Caerdydd	15	0
0	0	Valley Education Services Ltd	2	0
<b>7</b>	<b>0</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>17</b>	<b>0</b>

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys taliadau gan/i'r Awdurdodau Lleol neu'r ysgolion o fewn y Consortium, gan eu bod wedi eu cynnwys rhywle arall yn y nodiadau.

## 9.0 Ffioedd Archwilio

2021/22 £'000		2022/23 £'000
18	Ffioedd yn daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran archwilio allanol	21

## 10.0 Prydlesi

Mae trefniant prydles hirdymor sydd werth cyfanswm o £88 yn 2022/23 (£153k yn 2021/22) yn bodoli rhwng y Cyd-bwyllgor a CBS Rhondda Cynon Taf o ran adeiladau swyddfa yng Nghanolfan Arloesi'r Cymoedd. Nid oes unrhyw derfyniad wedi'i gynnwys yng nghytundeb y brydles a thybir meddiannaeth am gyhyd ag y bydd angen y gwasanaeth.

Nid yw'r Cyd-bwyllgor yn dal unrhyw asedau ar Brydlesi Cyllid.

## 11.0 Dyledwyr Byrdymor

Mae dadansoddiad o Dyledwyr Byrdymor yn y Fantolen fel a ganlyn:

31/03/22 £'000		31/03/23 £'000
1,338	Awdurdod Lletyol	2,222
97	Endidau ac Unigolion Eraill	79
0	Awdurdod Lleol ac Ysgolion	17
<b>1,435</b>		<b>2,318</b>
0	Darpariaeth ar gyfer Dyled Ddrwg	(1)
<b>1,435</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth 2022</b>	<b>2,317</b>

Caiff yr holl drafodiadau arian parod eu gweinyddu gan CBS Rhondda Cynon Taf gan nad yw Consortiwm Canolbarth y De yn gweithredu ei gyfrif banc ei hun. Mae dyledwr yr Awdurdod Lletyol yn cynnwys y balans 'arian parod' sy'n ddyledus i'r Consortiwm gan CBS Rhondda Cynon Taf.

## 12.0 Credydwy

Mae dadansoddiad o Gredydwy Byrdymor yn y Fantolen fel a ganlyn:

<b>31/03/22</b> <b>£'000</b>		<b>31/03/23</b> <b>£'000</b>
(348)	Awdurdodau Lleol ac Ysgolion	(499)
(32)	Cyrff Llywodraeth Ganolog	(270)
(427)	Arall	(258)
(49)	Croniad Absenoldebau Cyflogeion	(64)
<b>(856)</b>	<b>Balans ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>(1,091)</b>

## 13.0 Symudiadau ar Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

	<b>Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol £'000</b>	<b>Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi £'000</b>	<b>Cyfanswm £'000</b>
Balans ar 1 Ebrill 2022	174	453	627
Cynnydd/(Gostyngiad)	0	664	664
<b>Balans ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>174</b>	<b>1,117</b>	<b>1,291</b>

### 13.1 Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn gronfa wrth gefn referniw dosbarthadwy, sy'n cynnwys gwargedau cronedig gweithrediadau'r Consortiwm.

	<b>Cyfanswm £'000</b>
Balans ar 1 Ebrill 2022	174
Cynnydd/(Gostyngiad) 2022/23	0
<b>Balans ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>174</b>

### 13.2 Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i ddarparu cyllid



ar gyfer gwariant yn y dyfodol. Ystyrir bod yr holl gronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi yn gronfeydd wrth gefn referniw.

	<b>Balans ar 31/03/22 £'000</b>	<b>Trosglwyddi adau Allan £'000</b>	<b>Trosglwydd iadau i Mewn £'000</b>	<b>Balans ar 31/03/23 £'000</b>
Cronfeydd Wrth Gefn Grant Referniw	253	(253)	508	508
Cyllid ar gyfer Prosiectau Penodol	200	0	409	609
<b>Cyfanswm</b>	<b>453</b>	<b>(253)</b>	<b>917</b>	<b>1,117</b>

Mae Consortiwm Canolbarth y De yn cadw cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer ariannu prosiectau penodol, y mae £200k ohoni wedi'i neilltuo ar gyfer ailfodelu gwasanaethau'n barhaus a chynllunio ariannol tymor canolig (delir £200k ar 31 Mawrth 2021).

#### **14.0 Symudiadau ar Gronfeydd Wrth Gefn Annefyddiadwy**

<b>Cronfa wrth Gefn</b>	<b>Cronfa Bensiwn Wrth Gefn  £'000</b>	<b>Cyfrif Absenoldebau Cronnol Byrdymor a lawndalwyd £'000</b>	<b>Cyfanswm  £'000</b>
Balans ar 1 Ebrill 2022	843	(49)	794
Cynnydd/(Gostyngiad)	5,015	(15)	5,000
<b>Balans ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>5,858</b>	<b>(64)</b>	<b>5,794</b>

#### **14.1 Cronfa Bensiwn Wrth Gefn**

Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yw'r cyfrif cydbwysio i wrthbwysio cynnwys Atebolrwydd Pensiwn yn y Fantolen, fel sy'n ofynnol gan IAS 19 "Buddion Cyflogion". Gweler nodyn 15.0 am ragor o wybodaeth.

#### **14.2 Cyfrif Absenoldebau Cronnol Byrdymor a lawndalwyd**

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronnol Byrdymor a lawndalwyd yn cynnwys y gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Gronfeydd Wrth Gefn y Consortiwm o gronni ar gyfer absenoldebau â iawndal a enillwyd ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023.

#### **15.0 Buddion Ymddeol – Cynlluniau â Buddion wedi'u Diffinio**

## 15.1 Cyfranogi mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o'u telerau ac amodau, cynigir buddion ymddeol i gyflogeion Consortiwm Canolbarth y De gan y Cyd-bwyllgor. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes iddynt ymddeol, mae ymrwymiad ar y Cyd-bwyllgor i wneud y taliadau hyn. Mae angen cyfrif am yr atebolrwydd am y taliadau hyn ar yr adeg yr enillir yr hawl ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn, sef:

- Athrawon – Cyfeiriwch at nodyn 16.0.
- Cyflogeion eraill – Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan CBS Rhondda Cynon Taf, sef cynllun cyflog â buddion wedi'u diffinio a ariennir, sy'n golygu bod y Cyd-bwyllgor a chyfranogwyr yn talu cyfraniadau i'r Gronfa wedi eu cyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwyso'r atebolrwyddau pensiwn ag asedau buddsoddi. Diffinnir y costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-bwyllgor gan IAS 19 "Buddion Cyflogeion".

## 15.2 Trafodiadau yn Gysylltiedig â Buddion Ôl-Gyflogaeth

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan gânt eu hennill gan gyflogeion, yn hytrach na phan gaiff buddion eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, caiff y taliad y mae angen ei wneud i'r Cronfeydd Wrth gefn Cyffredinol ei seilio ar yr arian parod sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. Caiff y gwahaniaeth ei wrthdroi yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Cyhoeddwyd y trafodiadau canlynol yn ystod y flwyddyn:

<b>Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>2021/22 £'000</b>	<b>2022/23 £'000</b>
Cost Gwasanaethau:		
Cost Gwasanaeth Cyfredol	1,693	1,874
Cost Gwasanaeth Blaenorol	0	0
Setliadau a chwtogiadau	0	0
<i>Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant</i>		
Traul Llog Net / (incwm)	2	(26)
<b>Cyfanswm y Budd Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>1,695</b>	<b>1,848</b>
<i>Ailfesur yr Atebolrwydd Budd Diffiniedig Net sy'n Cynnwys:</i>		
Enillion ar Asedau'r Cynllun (Ac Eithrio'r Swm sydd wedi'i gynnwys yn y Draul Llog Net)	(94)	3,483
(Enillion) a Cholledion Actiwaraid yn Codi ar Atebolrwyddau – Rhagdybiaethau Demograffig	(334)	(12)

(Enillion) a Cholledion Actiwaraidd yn Codi ar Atebolrwyddau – Rhagdybiaethau Ariannol	(2,232)	(13,301)
(Enillion) a Cholledion Actiwaraidd yn Codi ar Atebolrwyddau – Profiad	106	3,241
Cynnydd net mewn atebolrwyddau o warediadau / caffaeliadau	0	0
<b>Cyfanswm y Budd Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(859)</b>	<b>(4,741)</b>
<i>Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn</i>		
Gwrthdroi Costau Net a Wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg i Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Buddion Ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	(1,695)	(1,848)
<i>Swm Gwirioneddol a Godwyd yn Erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer Pensiynau yn ystod y Flwyddyn:</i>		
Cyfraniadau Cyflogwyr sy'n Daladwy i'r Cynllun	226	274

Mae cyfanswm ail-fesur yr Atebolrwydd Buddion Diffiniedig Net a gydnabuwyd mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall hyd at 31 Mawrth 2023 yn gynydd o £6,589k (cynydd o £2,554k yn 2021/22).

Mae'r swm crynodol o enillion a cholledion actiwaraidd a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023 yn gynydd o £11,862k (cynydd o £5,273k yn 2021/22).

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys ystyriaeth i unrhyw aelodaeth (neu asedau cysylltiedig) yn gysylltiedig ag aelodau sydd wedi ymuno â'r cyflogwr ond nad ydynt wedi dewis cysylltu eu hawliau gwasanaeth blaenorol â'u cyflogaeth bresennol eto.

### **15.3 Cysoni Gwerth Presennol Atebolrwyddau'r Cynllun**

	<b>2021/22 £'000</b>	<b>2022/23 £'000</b>
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	33,113	33,017
Cost Gwasanaeth Cyfredol	1,693	1,874
Cost Llog ar Rwymedigaeth Ddiffiniedig	695	891
Cyfraniadau gan Gyfranogwyr y Cynllun	308	371
<i>Ailfesur Enillion a (Cholledion):</i>		
Enillion a (Cholledion) Actiwaraidd yn Codi ar Atebolrwyddau – Rhagdybiaethau Demograffig	(334)	(12)
Enillion a (Cholledion) Actiwaraidd yn Codi ar Atebolrwyddau – Rhagdybiaethau Ariannol	(2,232)	(13,301)

Enillion a (Cholledion) Actiwaraidd yn Codi ar Atebolrwyddau – Profiad	106	3,241
Buddion a Dalwyd	(332)	(463)
Costau Gwasanaeth Blaenorol	0	0
<b>Dygwyd Ymlaen ar 31 Mawrth</b>	<b>33,017</b>	<b>25,618</b>

#### 15.4 Cysoni Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

	<b>2021/22 £'000</b>	<b>2022/23 £'000</b>
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	32,871	33,860
Incwm Llog	693	917
<i>Ailfesur Enillion a (Cholledion):</i>		
Yr Enillion ar Asedau'r Cynllun, Ac Eithrio'r Swm sydd wedi'i Gynnwys yn y Draul Llog Net	94	(3,483)
Cyfraniadau Cyflogwyr	226	274
Cyfraniadau gan Gyfranogwyr y Cynllun	308	371
Buddion a Dalwyd	(332)	(463)
Cynnydd net mewn asedau o warediadau/caffaeliadau	0	0
<b>Dygwyd Ymlaen ar 31 Mawrth</b>	<b>33,860</b>	<b>31,476</b>

Pennir yr enillion disgwylidig ar asedau'r cynllun trwy ystyried yr enillion disgwylidig sydd ar gael ar yr asedau sy'n sail i'r polisi buddsoddi presennol. Mae arenillion disgwylidig ar fuddsoddiadau llog sefydlog wedi eu seilio ar arenillion adbrynu gros fel dyddiad y Fantolen.

Mae enillion disgwylidig ar fuddsoddiadau ecwiti yn adlewyrchu cyfraddau enillion gwirioneddol hirdymor yr enillion a brofwyd yn y marchnadoedd priodol. O ran yr enillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd o £2,566k (cynnydd o £787k yn 2021/22).

#### 15.5 Hanes y Cynllun

	<b>2021/22 £'000</b>	<b>2022/23 £'000</b>
Gwerth Presennol y Rhwymedigaeth Ddiffiniedig	(33,017)	(25,618)
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	33,860	31,476
<b>Gwarged / (Diffyg)</b>	<b>843</b>	<b>5,858</b>

Mae'r atebolrwyddau yn dangos yr ymrwymadau sylfaenol sydd gan y Cyd-bwyllgor yn y pen draw i dalu buddion ymddeol. Caiff cyfanswm yr atebolrwydd, sef £5,858k, effaith sylweddol ar werth net y Cyd-bwyllgor fel y cofnodwyd yn y Fantolen.

Gellir adfer y gwarged ar y cynllun llywodraeth leol ar ffurf cyfraniadau llai yn y dyfodol.

### **15.6 Asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae buddsoddiadau Asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31 Rhagfyr 2022 (cynllun llawn, nid elfen Consortiwm Canolbarth y De) wedi eu cynnwys fel a ganlyn:

	<b>Gwerth Teg Asedau'r Cynllun</b>	
	<b>2021/22</b>	<b>2022/23</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Ecwitïau'r DU	443,447	443,611
Ecwitïau Tramor	2,870,331	2,354,047
Giltiau Llog Sefydlog y DU	563,640	429,562
Bondiau Corfforaethol y DU	607,650	507,735
Eiddo	317,833	318,236
Isadeiledd	0	21,975
Arian parod ac asedau cyfredol net	16,991	27,511
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,819,892</b>	<b>4,102,677</b>

### **15.7 Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Atebolrwyddau**

#### **Dwyn ymlaen yr Asedau**

Caiff y canlyniadau prisio o'r prisiad llawn diwethaf o'r Gronfa (neu ganlyniadau ar y dyddiad cyfrifyddu blaenorol, fel y bo'n briodol) eu haddasu yn unol â diwedd y flwyddyn gyfrifyddu, gan ganiatáu ar gyfer:

- Enillion buddsoddi, a
- Llifau arian, gan gynnwys enillion buddsoddi ar y llifau arian hynny.

Cronnir gwerth yr ased ar ddechrau'r cyfnod cyfrifyddu gydag enillion buddsoddi'r Gronfa dros y cyfnod cyfrifyddu. Tybir bod llifau arian net yn cael eu talu hanner ffordd trwy'r cyfnod a'u bod yn cronni hanner enillion buddsoddi'r Gronfa dros y cyfnod.

#### **Dwyn ymlaen Atebolrwyddau**

Caiff y canlyniadau prisio o brisiad llawn diwethaf y Gronfa (neu ganlyniadau ar y dyddiad cyfrifyddu blaenorol, fel y bo'n briodol) eu haddasu i ganiatáu ar gyfer y dyddiad cyfrifyddu diweddarach (trwy ychwanegu llog at yr atebolrwyddau) ac ystyried newidiadau mewn atebolrwyddau o ganlyniad i'r canlynol:

- Cronni buddion newydd a chyflawni atebolrwyddau ar gyfer talu buddion.
- Y rhagdybiaethau ariannol a demograffig a fabwysiedir ar ddiwedd y flwyddyn.

- Effaith unrhyw brofiad hysbys sy'n effeithio ar yr atebolrwyddau, fel effaith cynnydd pensiwn gwirioneddol ar bensiynau mewn taliad a buddion gohiriedig.
- Os yw'n berthnasol, effaith digwyddiadau sy'n arwain at newid yn yr atebolrwydd fel costau gwasanaethau, setliadau a chwtogiadau yn y gorffennol.

Roedd y prisiad llawn wedi'i seilio ar fudd-daliadau a ariennir a dyma fu'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari:

	<b>31/03/22</b>	<b>31/03/23</b>
Cyfradd Ddisgwyliedig Hirdymor yr Enillion ar Asedau yn y Cynllun (yn unol â chyfradd y disgownt)	4.25%	4.30%
Rhagdybiaethau o ran Marwolaethau:		
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr presennol:		
Dynion	21.6	21.6
Menywod	23.9	24.2
Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol:		
Dynion	22.6	22.9
Menywod	25.4	25.7
Chwyddiant CPI	3.0%	2.7%
Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	4.25%	3.95%
Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	3.0%	2.7%
Cyfradd ar gyfer disgowntio atebolrwyddau'r cynllun	2.7%	4.7%
Manteisio ar y Opsiwn i Drosi Pensiwn Blyneddol yn Gyfandaliad wrth Ymddeol:	80%	85%

Mae amcangyfrif y rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid a amlinellir yn y tabl uchod. Pennwyd y dadansoddiadau sensitifrwydd isod ar sail newidiadau posibl rhesymol i'r rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac yn tybio ar gyfer pob newid fod y rhagdybiaeth wedi dadansoddi newidiadau tra bydd yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson.

	<b>Cynnydd mewn Rhagdybiaeth £'000</b>	<b>Gostyngiad mewn Rhagdybiaeth £'000</b>
Hirhoedledd (Cynnydd neu Ostyngiad mewn 1 Flwyddyn)	666	(666)

Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%)	51	(51)
Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%)	410	(410)
Cyfradd ar gyfer Atebolwyddau'r Cynllun Disgowntio (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%)	(461)	461

### **15.8 Cyfraniadau ar gyfer y Cyfnod Cyfrifyddu yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024**

Amcangyfrifir bod cyfraniadau rheolaidd y Cyflogwr at y Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024 yn £316k (£236k ar 31 Mawrth 2023).

### **16.0 Buddion Ymddeol – Cynllun Cyfraniadau wedi'u Diffinio**

Mae staff a gyflogir ar delerau ac amodau Athrawon yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Mae'r cynllun yn darparu buddion penodol i athrawon pan fyddant yn ymddeol ac mae'r Cyd-bwyllgor yn cyfrannu tuag at y costau trwy wneud cyfraniadau wedi eu seilio ar ganran o gyflog pensiynadwy aelodau.

Cynllun â buddion wedi'u diffinio yw'r Cynllun yn dechnegol. Fodd bynnag, ni chaiff y Cynllun ei ariannu ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol yn sylfaen ar gyfer cyfrifo cyfradd cyfraniad y cyflogwr a delir gan awdurdodau lleol. Ni all y Cyngor nodi ei gyfran o sefyllfa ariannol sylfaenol a pherfformiad y Cynllun gyda dibynadwyedd digonol at ddibenion cyfrifyddu. At ddibenion y Datganiad hwn o Gyfrifon, fe'i hystyrir felly ar yr un sail â chynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

Yn 2022/23, talodd y Cyd-bwyllgor £89k i Gronfa'r Pensiwn Athrawon o ran buddion ymddeol athrawon, sy'n cynrychioli 23.68% o gyflog pensiynadwy (talwyd £94,000 yn 2021/22 sy'n cynrychioli 23.68% o gyflog pensiynadwy). Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn weddill yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn.

### **17.0 Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Awdurdodwyd y Datganiad o Gyfrifon i'w cyhoeddi gan y Cyd-bwyllgor ar 7 Tachwedd 2023. Ni chaiff digwyddiadau a gynhelir ar ôl y dyddiad hwn eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Pan fydd digwyddiadau a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2023, addaswyd y ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau ym mhob ystyr perthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau a gynhaliwyd ar ôl 31 Mawrth 2023 a oedd yn mynnu datgeliad gan ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddealltwriaeth o sefyllfa ariannol Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortium Canolbarth y De.

**18.0 Cysoni'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol â Llif arian**

<b>2021/22 £'000</b>		<b>2022/23 £'000</b>
1,603	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	925
482	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr	(233)
30	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	(2)
(1,469)	IAS 19 Trafodiadau	(1,574)
<b>646</b>	<b>(Mewnlif)/All-lif Arian Parod o Eitemau Refeniw</b>	<b>(884)</b>

**19.0 Rhwymedigaethau Digwyddiadol****Proses Rheoli Costau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)**

Cyfeiriwch at Rhagdybiaethau a Wneir Am y Dyfodol a Phrif Ffynonellau Eraill Ansicrwydd ynghylch Amcangyfrif (4.0)

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i Drysorlys Ei Mawrhydi a Bwrdd Cynghori'r Cynllun (SAB) gynnal prisiadau o dro i dro i fonitro cost y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy a fforddiadwy. Gelwir hyn yn "Broses Rheoli Costau". Ni argymhellodd canlyniadau'r adolygiadau unrhyw newidiadau i ddarpariaethau'r cynllun. Mae cyfreithlondeb penderfyniad y Llywodraeth i gynnwys costau McCloud fel cost aelodau o fewn proses 2016 Trysorlys Ei Mawrhydi yn cael ei herio gan Adolygiad Barnwrol a ddygwyd gan undebau llafur. Os yw'r Adolygiad Barnwrol yn llwyddiannus, gallai hyn achosi i broses 2016 Trysorlys Ei Mawrhydi gael ei chynnal eto, a gallai arwain at newidiadau i fuddion neu gyfraniadau aelodau a fydd yn cael eu hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2019.

Nid oes unrhyw lwfans wedi'i wneud ar gyfer cost bosibl gwella buddion aelodau o dan yr adolygiadau hyn.

**20.0 Taliadau Swyddogion**

Yn ystod 2022/23, talodd y Consortiwm 107 o gyflogeion bob mis ar gyfartaledd (90 yn 2021/22). Dros y flwyddyn, cyfanswm taliadau cyflog oedd £5,329k (ac eithrio cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr) (£4,184k yn 2021/22).



O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, rhaid i'r Cyd-bwyllgor ddatgelu yn eu cyfrifon nifer y cyflogeion (ac eithrio uwch gyflogeion penodol a ddangosir yn Nodyn 20.0) yr oedd eu tâl yn ystod y flwyddyn yn disgyn ym mhob cromfach graddfa mewn lluosrifau o £5,000, gan ddechrau ar £60,000 (ac eithrio cyfraniadau pensiwn). Mae'r datgeliad yn cynnwys taliadau diswyddo.

Gwnaed y taliadau cyflog canlynol o fewn y categorïau a nodwyd:

Band Taliadau	2021/22			2022/23		
	Nifer y Cyflogeion			Nifer y Cyflogeion		
	Ar 31/03/22	Gadawsant yn ystod y Flwyddyn	Cyfanswm	Ar 31/03/23	Gadawsant yn ystod y Flwyddyn	Cyfanswm
£60,000 - £64,999	11	0	11	16	1	17
£65,000 - £69,999	9	0	9	5	0	5
£70,000 - £74,999	5	0	5	6	0	6
£75,000 - £79,999	1	0	1	2	0	2
£80,000 - £84,999	0	0	0	1	0	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>26</b>	<b>0</b>	<b>26</b>	<b>30</b>	<b>1</b>	<b>31</b>

## 21.0 Uwch Swyddogion

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r taliadau ar gyfer Uwch Swyddogion penodol y mae eu cyflog yn llai na £150,000 ond yn fwy na £60,000. Nid oes yna unrhyw Uwch Swyddogion y mae eu cyflog yn fwy na £150,000. Mae cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliad iawndal o ran colli cyflogaeth wedi eu cynnwys.

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd	2022/23				
	Cyflog	Buddion Trethadwy mewn Nwyddau	Iawndal am golli cyflogaeth	Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolwr Gyfarwyddwr *	117	0	0	7	124
Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr **	94	0	0	6	100
Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Safonau a Chynllunio Gwelliant **	83	0	0	5	88

Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cwricwlwm **	82	0	0	5	<b>87</b>
--	----	---	---	---	-----------

\* Cyfanswm y cyflog, ffioedd a lwfansau a dalwyd i neu a oedd yn dderbyniadwy yn ystod 2022/23 ac eithrio £2k sy'n ymwneud â 2021/22 ond a dalwyd i'r uwch swyddog yn ystod 2022/23.

\*\* Mae'n cynnwys cyfanswm y cyflog, ffioedd a lwfansau a dalwyd i neu a oedd yn dderbyniadwy yn ystod 2022/23, ac eithrio £1k a oedd yn ymwneud â 2021/2022 ond a dalwyd i'r uwch swyddogion yn ystod 2022/2023

Dangosir y ffigurau cymharol ar gyfer 2021/22 yn y tabl canlynol:

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd	2021/22				
	Cyflog	Buddion Trethadwy mewn Nwyddau	lawndal am golli cyflogaeth	Cyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolwr Gyfarwyddwr *	115	0	0	7	<b>122</b>
Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr **	94	0	0	6	<b>100</b>
Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Safonau a Chynllunio Gwelliant	81	0	0	5	<b>86</b>
Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cwricwlwm **	82	0	0	5	<b>87</b>

\* Cyfanswm cyflog, ffioedd neu lwfansau a dalwyd iddynt neu y gellir eu derbyn yn ystod 2021/2022 ac eithrio £1k a oedd yn ymwneud â 2020/2021 ond a dalwyd i'r uwch swyddog yn ystod 2021/2022. Yn cynnwys £2k a dalwyd i'r uwch swyddog yn ystod 2022/2023.

\*\* Yn cynnwys cyfanswm cyflog, ffioedd neu lwfansau a dalwyd i neu y gellir eu derbyn yn ystod 2021/2022, y dalwyd rhan ohono (£1k) i'r uwch swyddogion yn ystod 2022/2023.

## 22.0 Costau Diswyddo

Mae'r nodyn hwn yn rhoi manylion cost diswyddo i'r Consortiwm mewn perthynas â chyflogeion sydd wedi gadael cyflogaeth y Consortiwm yn ystod y flwyddyn ariannol (nid yw'r costau'n adlewyrchu gwerth y diswyddiad a dderbynnir gan yr unigolyn gan ei fod yn cynnwys straen pensiwn). Mae'r holl gostau yn unol â'r cynllun terfynu perthnasol a chymwys ac fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau'r Gronfa Bensiwn berthnasol lle bo'n berthnasol.

Nodir nifer a chostau (mewn bandiau) terfyniadau gorfodol a therfyniadau eraill yn y tabl isod.

Band Diswyddo	Cost	Nifer y terfyniadau gorfodol		Nifer y terfyniadau eraill		Cyfanswm y terfyniadau		Cyfanswm Cost Diswyddo	
		21/22	22/23	21/22	22/23	21/22	22/23	£000s	
								21/22	22/23
£0 - £20,000		0	0	0	3	0	3	0	16
<b>Cyfanswm</b>		<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>3</b>	<b>0</b>	<b>3</b>	<b>0</b>	<b>16</b>

## CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE

### DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2022/23

#### 1. CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

1.1 Mae Consortiwm Canolbarth y De yn Wasanaeth Addysg Ar y Cyd a gomisiynir gan bum Awdurdod Lleol, sef:


- CBS Pen-y-bont ar Ogwr;
- CBS Caerdydd;
- CBS Merthyr Tudful;
- CBS Rhondda Cynon Taf; a
- CBS Bro Morgannwg.

Mae Consortiwm Canolbarth y De yn cwmpasu anghenion 380 o ysgolion a 152,141 o ddisgyblion yn y rhanbarth.

1.2 Ym mis Ionawr 2014, lanswyd Her Canol De Cymru. Ei nod yw codi safonau ar draws yr holl ysgolion yn y rhanbarth ac ysgogi rhannu arbenigedd ymhlith ysgolion ac ymdrechion ar y cyd i arloesi i:

- Wella perfformiad pob ysgol;
- Cynyddu niferoedd yr ysgolion da a rhagorol;
- Lleihau'r bwlch rhwng grwpiau o ddysgwyr sy'n perfformio'n dda ac yn perfformio'n wael; a
- Gwella deilliannau ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed.

Yn dilyn hynny, mae [Her Canol De Cymru](#) wedi datblygu, ac mae'n cynnwys nifer o strategaethau gwahanol:



\*Diweddarwyd Ebrill 2023

- 1.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes, a busnes y Cyd-bwyllgor Addysg, y mae ganddo gyfrifoldeb gweinyddol amdano, yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol, a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- 1.4 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Consortiwm yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei faterion a hwyluso arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, sy'n cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg.
- 1.5 Nod Datganiad Llywodraethu Blyneddol Consortiwm Canolbarth y De yw darparu cynrychiolaeth gywir o'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023.

## 2. DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

- 2.1 Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd diwylliannol sy'n cyfeirio a rheoli'r Consortiwm, a'r gweithgareddau y mae'n atebol amdanynt ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwyddynt. Mae'n galluogi'r Consortiwm i fonitro cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried p'un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.
- 2.2 Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac wedi'i chynllunio i reoli'r risg i lefel resymol. Ni all ddileu'r holl risg o fethu i gyflawni nodau ac amcanion, ac felly gall rhoi sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd.

- 2.3 Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni blaenoriaethau'r Consortiwm, i werthuso tebygolrwydd ac effaith y risgiau hynny o ddigwydd, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.
- 2.4 Mae gan y Consortiwm gyfrifoldeb am gynnal asesiad o'i fframwaith llywodraethu bob blwyddyn man lleiaf, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff yr asesiad ei lywio gan y gwaith a wneir gan asiantaethau allanol a thrwy drefniadau mewnol, gan gynnwys trefniadau rheoli perfformiad.
- 2.5 Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r fframwaith llywodraethu cyffredinol a'r system rheolaeth fewnol, sydd wedi bod ar waith ar gyfer Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 (a hyd at ddyddiad cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2022/23).

### 3.0 Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

- 3.1 Mae'r Consortiwm wedi defnyddio *Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (2016)* wrth gasglu ei Ddatganiad Llywodraethu Blyneddol ynghyd. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dwy Egwyddor Graidd a phum Egwyddor Ategol, sef:

#### Egwyddorion craidd

- Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith; a
- Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

#### Egwyddorion Ategol

- Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;
- Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau bwriadedig;
- Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo;
- Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref; a
- Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, gan adrodd ac archwilio i gyflawni atebolrwydd effeithiol.

- 3.2 Mae'r Egwyddorion Craidd yn treiddio trwy roi'r Egwyddorion Ategol ar waith gyda'r angen i'r Consortiwm ymrwymo i wella llywodraethu yn barhaus trwy broses werthuso ac adolygu.

- 3.3 Mae'r Consortiwm wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn i strwythuro'i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023 ac asesu'r trefniadau sydd ar waith.
- 3.4 Mae gan y Consortiwm ystod o drefniadau llywodraethu ar waith, yn unol â 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith', y mae llawer ohonynt wedi eu hamlinellu yng nghytundeb cyfreithiol y Consortiwm a / neu'n rhan o drefniadau llywodraethu CBSRhCT sydd wedi'u mabwysiadu gan Gonsortiwm Canolbarth y De. Mae Tabl 1 yn rhoi enghreifftiau o'r systemau, y prosesau a'r dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Consortiwm yn ystod 2022/23.

**Tabl 1 - Enghreifftiau o systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn Consortiwm Canolbarth y De**

Egwyddorion Llywodraethu Da	Enghreifftiau o systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith o fewn y Consortiwm
Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <a href="#">Rheolau Gweithdrefnol</a> – sy'n cwmpasu'r Cyngor, Llywodraeth Agored, Mynediad at Wybodaeth, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Gweithrediaeth, Trosolwg a Chraffu, Cyflogi Swyddogion a Rheolau Contractau a Gweithdrefnau Ariannol. Mae'r rheolau yn amlinellu trefniadau a ddylai gael eu dilyn gan Gynghorwyr a Swyddogion etholedig wrth gynnal busnes y Consortiwm, gyda'r nod o arddangos atebolrwydd a didwylledd yn gyhoeddus.</li> <li>• <a href="#">Polisi Chwythu'r Chwiban</a> – hyrwyddo'r safonau gwasanaeth uchaf posibl ac amlinellu sut gall gweithwyr ddod â gwybodaeth am gamwedd at sylw'r Consortiwm.</li> <li>• Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredigaeth.</li> <li>• Polisi rhoddion a lletygarwch.</li> <li>• Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno – yn amlinellu sut mae'r Cyngor / Consortiwm yn ymdrin â'r adborth, ac yn ymateb iddo (cwynion, canmol a sylwadau).</li> <li>• Canllaw Swyddogion.</li> <li>• Llawlyfr Staff.</li> </ul>
Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Blaengynlluniau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor, ynghyd â'r materion i'w hystyried, lle bo'n briodol.</li> </ul>
Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fframwaith Rheoli Perfformiad.</li> <li>• Cynllun Busnes a Chynlluniau Cyflawni Gweithredol.</li> <li>• Adroddiadau Perfformiad Rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor (gan gynnwys diweddariadau i'r Gofrestr Risg).</li> <li>• Strategaeth Rheoli Risg.</li> </ul>

Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau bwriadedig	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Cyllideb Refeniw Blynyddol.</li> <li>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</li> <li>• Pwyllgorau Craffu.</li> <li>• Sesiynau Her ac Adolygu gyda Llywodraeth Cymru.</li> </ul>
Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinydd a'r unigolion oddi mewn iddo	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Busnes</li> <li>• Llawlyfr Staff.</li> <li>• Cynlluniau Dirprwyo.</li> <li>• Proses Hunanwerthuso.</li> <li>• Sesiwn Ranbarthol Gwerthuso a Gwella</li> </ul>
Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol drylwyr a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth Rheoli Risg.</li> <li>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol (gan gynnwys diweddariadau i'r Gofrestr Risg ).</li> <li>• Swyddogaeth Archwilio Mewnol.</li> <li>• Rheolau Gweithdrefnol y Fframwaith Cyllideb a Pholisi a Rheolau Contractau a Gweithdrefnau Ariannol.</li> <li>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</li> </ul>
Rhoi arferion da ar waith mewn tryloywder, gan adrodd ac archwilio i gyflawni atebolrwydd effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datganiad o Gyfrifon.</li> <li>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol.</li> <li>• Llundio adroddiadau ar feysydd busnes allweddol.</li> <li>• Archwilio Mewnol.</li> </ul>

### 3.5 Cytundeb Cyfreithiol

Ar 20 Ebrill 2015, lluniodd pob parti gytundeb cyfreithiol diwygiedig, a'i lofnodi. Roedd y cytundeb hwn yn disodli'r holl gytundebau cyfreithiol blaenorol rhwng y Partneriaid. Atgyfnerthodd y cytundeb hwn y trefniadau cyfreithiol sy'n berthnasol i Gonsortium Canolbarth y De yn un Cytundeb. O'r adeg hon ymlaen yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, cyfeirir at y 'Cytundeb Cyfreithiol'.

3.5.1 Mae'r Cytundeb Cyfreithiol ar gyfer Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortium Canolbarth y De yn darparu'r fframwaith llywodraethu y mae'r Gwasanaeth yn gweithredu oddi mewn iddo, ac yn dyrannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd, fel a ganlyn:

- Yr Awdurdod Lletyol;
- Grŵp Llywio'r Cyfarwyddwyr;
- Y Bwrdd Cyngori;
- Grŵp Rheoli Gweithredol;



- Cyd-bwyllgor Addysg Consortiwm Canolbarth y De; a
- Rheolaeth Ariannol.

3.5.2 Mae'r cytundeb cyfreithiol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau bod newidiadau diweddar i drefniadau llywodraethu (fel yr amlinellir yn adran 5.3.8 isod) a bydd yn cael ei ddanfôn at y Cyd-bwyllgor i'w ystyried.

### 3.6 Yr Awdurdod Lletyol

Mae'r Cytundeb Cyfreithiol yn pennu'n ffurfiol mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r Awdurdod Lletyol ar gyfer Consortiwm Canolbarth y De. Mae CBSRhCT yn darparu'r holl wasanaethau cymorth (ar wahân i'r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd sy'n cael ei wneud gan staff yn unol â'u dyletswyddau) sy'n ofynnol, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

- Ariannol (Swyddog Adran 151 fel a ddiffinnir gan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Cyfrifon, Cyflogres, Credydwy, Dyledwy, Yswiriant);
- Adnoddau Dynol;
- Iechyd a Diogelwch;
- Cyfreithiol;
- TGCh;
- Ystadau;
- Archwilio Mewnol (hwylusir gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, (RIAS)); a
- Chaffael.

Codir y costau am y rhain, lle bo'n berthnasol, ar Gyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De trwy'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth.

3.7 Mae Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sydd â stiwardiaeth ariannol Consortiwm Canolbarth y De, yn dyrannu swyddogaethau a chyfrifoldeb o fewn yr Awdurdod. Mae hefyd yn rheoleiddio ymddygiad unigolion (Aelodau a Swyddogion) a grwpiau trwy godau ymddygiad, protocolau a rheolau gweithdrefnol. Dylai pob swyddogaeth a gyflawnir gan Consortiwm Canolbarth y De fod yn unol â holl Bolisiâu a Rheolau Gweithdrefnol perthnasol CBSRhCT.

### 3.8 Ymddygiad Swyddogion

I sicrhau ymagwedd gyson at arferion a phrosesau gweithio, mae pob swyddog yn rhwym wrth delerau ac amodau cyflogaeth (sydd wedi eu seilio ar delerau ac amodau gweithredu CBSRhCT).

### 3.9 COVID-19

Parhawyd i roi sylw allweddol i bandemig Covid-19 fel rhan o gynllunio a darparu gwasanaethau drwy gydol 2022/23, gyda swyddogion CCD yn gweithio'n hyblyg i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n barhaus.

Roedd Cyd-bwyllgor a phrosesau democrataidd CCD yn unol â'r cytundeb cyfreithiol, gyda hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau tryloyw, craffu effeithiol a'r pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

Roedd trefniadau rheoli ariannol a pherfformiad (gan gynnwys adroddiadau ar y gofrestr risg) ar waith i reoli'r ddarpariaeth o wasanaethau yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, a dangosir hyn drwy'r gyfres o wybodaeth a adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, adroddiadau monitro cyllidebau, diweddariad Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Datganiad Cyfrifon archwiledig 2021/22.

#### **4.0 ASESU TREFNIADAU LLYWODRAETHU'R CONSORTIWM**

4.1 Yn unol ag Egwyddorion Craidd ac Ategol y Fframwaith, dyma'r dull a ddefnyddiwyd i asesu trefniadau'r Consortiwm:

- Amlinellu disgrifiad bras o'r trefniadau a'r gweithdrefnau sydd ar waith, ynghyd â'r deilliannau allweddol y mae'r Consortiwm yn anelu at eu cyflawni;
- Archwilio a dogfennu'r prif weithgareddau sydd wedi digwydd o amgylch y meysydd hyn, gan ystyried tystiolaeth ategol o brosesau mewnol y Consortiwm ac adroddiadau Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ar y Consortiwm;
- Llunio barn ar y graddau y mae'r gweithgareddau'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau sydd ar waith; a
- Gwneud cynigion ar gyfer gwella, lle bo'n briodol, ynghyd â graddfeydd amser a argymhellwyd ar gyfer gweithredu a swyddogion cyfrifol.

4.2 Mae'r asesiad o drefniadau llywodraethu'r Consortiwm wedi'i amlinellu yn Adran 5.

#### **5.0 ASESAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU**

5.1 **CYNNYDD A WNAED I WEITHREDU ARGYMHELLION A ADRODDWYD YN NATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21**

Gwnaed 4 cynnig ar gyfer gwella yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22. Rhoddwyd diweddariad ar gynnydd i Gyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar 13 Rhagfyr 2022 ac ar ôl eu hystyried,

PENDERFYNODD y Pwyllgor: *nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran rhoi'r cynigion ar gyfer gwella ar waith.*

Ar 31 Mawrth 2023, roedd cynnydd wedi'i wneud yn erbyn y 4 cynnig:

- roedd 2 gynnis ar gyfer gwella wedi'u gweithredu.
- roedd 2 gynnis ar gyfer gwella 'yn parhau', a byddant yn cael eu cwblhau yn ystod 2023/24 – ystyrir na chafodd statws gweithredu'n rhannol ar gyfer y meysydd hyn effaith niweidiol ar gadernid trefniadau llywodraethu'r Consortiwm yn ystod y flwyddyn.

Ar sail yr uchod, ystyrir yn gyffredinol bod cynnydd digonol wedi'i wneud yn ystod 2022/23 o ran cyflawni'r cynigion ar gyfer gwella gyda'r gofyniad am gwblhau gwaith pellach yn 2023/24. Mae datganiad sefyllfa manwl wedi'i amlinellu yn Atodiad A.

## 5.2 YMDDWYN AG UNIONDEB, GAN DDANGOS YMRWYMIAD CRYF I WERTHOEDD MOESEGOL, A PHARCHU RHEOL Y GYFRATH

### Ymddwyn ag uniondeb

- 5.2.1 Mae'r Consortiwm yn dilyn Cyfansoddiad yr Awdurdod Lletyol sy'n amlinellu'r modd y dylai weithredu, sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol. O fewn y Cyfansoddiad, mae nifer o [Reolau](#)<sup>6</sup> a [Phrotocolau](#)<sup>7</sup> sy'n anelu at sicrhau bod Cynghorwyr etholedig a chyflogeion yn ymddwyn ag uniondeb.
- 5.2.2 Mae'r Consortiwm wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i'w dilyn gan y Cyd-bwyllgor Addysg wrth gynnal cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau yn ystod y flwyddyn i arddangos yn gyhoeddus ymagwedd atebol, agored a gonest. Mae hyn wedi cynnwys ystyried cywirdeb 'cofnodion cyfarfodydd'<sup>8</sup>; cofnodi datganiadau o fudd personol; cyhoeddi adroddiadau ar wefan RhCT cyn cynnal cyfarfodydd; gwneud penderfyniadau wedi eu seilio ar adroddiadau yn seiliedig ar dystiolaeth; a chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd. Dangosodd adolygiad o gyfarfodydd enghreifftiol y Cyd-bwyllgor Addysg yn ystod y flwyddyn fod y gweithdrefnau a grybwyllir uchod wedi cael eu dilyn.

### Cyflogeion y Consortiwm

<sup>6</sup> Rheolau – er enghraifft, Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Chontractau

<sup>7</sup> Protocolau – er enghraifft, Polisi Rhoddion a Lletygarwch

<sup>8</sup> Cofnodion cyfarfodydd – cofnod ffurfiol a chytún o'r digwyddiadau a gynhaliwyd ym mhob cyfarfod.

- 5.2.3 Mae Cytundeb Cyfreithiol Consortiwm Canolbarth y De yn amlinellu rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) fel yr awdurdod lletyol. Fel rhan o'r cytundeb hwn, mae'r Consortiwm yn mabwysiadu polisiâu RhCT, gan gynnwys Cod Ymddygiad Swyddogion a ddefnyddiwyd i greu dogfen 'Rheolau Sylfaenol – Canllaw i Gyflogeion' sy'n hawdd ei deall, ac yn cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig ag ymddygiad disgwylidig, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, ymddangosiad a phresenoldeb, ymhlith pethau eraill. Mae'r canllaw ar gael ar-lein i'r holl gyflogeion.
- 5.2.4 Rhoddwyd cyfnod sefydlu lleol i'r holl swyddogion a ddechreuodd gyflogaeth gyda Chonsortiwm Canolbarth y De. Rhoddwyd proses Adolygiad o Berfformiad Unigol i gyd-fynd â hyn ar waith i gefnogi datblygiad personol swyddogion. Goruchwyliwyd hyn gan reolwyr yn y Consortiwm ac fe'i cefnogwyd gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn Rhondda Cynon Taf.

### **Trefniadau sydd ar waith i fynd i'r afael â chamddefnydd posibl**

- 5.2.5 Os bydd swyddog yn penderfynu gweithredu y tu allan i delerau ac amodau bwriadedig cyflogaeth, roedd trefniadau ar waith i swyddogion "chwythu'r chwiban" trwy [Bolisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban y Consortiwm](#) RhCT.
- 5.2.6 Yn ogystal â threfniadau Chwythu'r Chwiban, roedd trefniadau ar waith i fynd i'r afael â [thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth](#) posibl.
- 5.2.7 Mae gan Bwyllgor Archwilio CBSRhCT gyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith o ran 'mynd i'r afael â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth bosibl' a 'chwythu'r chwiban'. Dyma ddiweddariadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn ynglŷn â'r trefniadau hyn:

### **Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth**

- 5.2.8 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 7 Rhagfyr 2022, rhoddwyd diweddariad cynnydd i'r Pwyllgor yn erbyn rhaglen waith Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2022/23 (eitem eithriedig yw hon). Roedd y diweddariad hwn yn rhoi sicrwydd ar drefniadau'r Cyngor i fynd i'r afael â thwyll posibl a chwmpasu'r amgylchedd rheoli mewnol sy'n cefnogi'r maes hwn; penderfynodd y Pwyllgor nodi ac adolygu canlyniad y cynnydd yn y gwaith gwrth-dwyll yn ystod 2022/23.
- 5.2.9 Ystyriodd cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 15 Mawrth 2023 Adroddiad Blynyddol Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2022/23, a oedd yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2023/24 (eitem eithriedig yw hon). Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod:

- Cefnogaeth barhaus y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer cyflawni a monitro'r Strategaeth Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd yn atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor a'r dull "dim goddefgarwch" tuag at unrhyw weithgaredd twyllodrus sy'n ymwneud â'i fusnes.
- Bydd cyflwyno'r rhaglen waith Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2023/24 yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i weithredu o fewn diwylliant gwrth-dwyll effeithiol ar draws y sefydliad, gyda mesurau ataliol gwydn yn gallu nodi a mynd i'r afael â bygythiadau newydd.

### Chwythu'r Chwiban

- 5.2.9 Adroddwyd ar Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban ar gyfer 2022/23 i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio [15 Mawrth 2023](#) a daeth i'r casgliad bod 'trefniadau chwythu'r chwiban y Cyngor yn briodol'
- 5.2.11 Polisi Rhoddion a Lletygarwch – mae polisi'r Consortium yn gyson â Pholisi Rhoddion a Lletygarwch RhCT, ac roedd trefniadau ar waith, trwy gofrestrau, i gofnodi rhoddion a lletygarwch yn unol â'r Polisi.

### Dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol

- 5.2.12 Gwerthoedd Moesegol: Cyflogeion y Consortium - mae'r Consortium wedi disgrifio sut beth yw ymddygiad rhagorol ar gyfer pob math o swydd, er enghraifft, '*dylid parchu pobl bob amser*', a defnyddir y wybodaeth hon i brofi addasrwydd ymgeiswyr am swyddi yn y cyfweiliad. Fe'i defnyddir i lywio trafodaethau a gaiff rheolwyr gyda'u staff hefyd fel rhan o'u datblygiad.

### Parchu rheol y gyfraith

- 5.2.13 Mae swydd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn arwain swyddogion y Consortium, ac yn cadeirio'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

## 5.3 SICRHAU DIDWYLLEDD AC YMGYSYLLTU CYNHWYSFAWR Â RHANDDEILIAID

### Didwylledd

- 5.3.1 Caiff aelodau Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortium Canolbarth y De eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Caiff y Codau Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn Cyfansoddiad yr Awdurdod Lletyol eu seilio ar egwyddorion didwylledd, tryloywder a gonestrwydd.

### Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

5.3.2 Daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i rym ar 25 Mai 2018. Cymerwyd camau gan y Consortiwm yn ystod 2018/19 i ddangos atebolrwydd a thryloywder wrth drin a phrosesu gwybodaeth bersonol a sensitif y mae'n ei dal ynglŷn ag unigolion. Cynhaliwyd y trefniadau hyn yn ystod 2021/22 drwy'r canlynol:

- Cofnodi'n ffurfiol y sail gyfreithiol y caiff data / gwybodaeth ei phrosesu arni o fewn cyfresi o ddogfennau o'r enw Cofrestrau Diogelu Data; a
- Sefydlu 'Hysbysiadau Preifatrwydd' sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn amlinellu sut mae'n bwriadu defnyddio gwybodaeth a sut bydd yn cyflwyno ei wasanaethau ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Fel y nodir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 mae grŵp mewnol wedi datblygu papurau polisi perthnasol ac wedi mireinio prosesau a gweithdrefnau i sicrhau cydymffurfio â'r GDPR, gan weithio'n agos gyda thîm Rheoli Gwybodaeth CBSRhCT.

Ystyrir bod cyhoeddi'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Consortiwm o ran cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'i fod yn dangos didwylledd a thryloywder wrth ddelio â'i gwsmeriaid.

### **Rhyddid Gwybodaeth a Chais am Fynediad at Ddata gan y Testun**

5.3.3 Bu'r Consortiwm yn gweithredu cynllun cyhoeddi Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn unol â gofynion deddfwriaethol. Darperir diweddariadau ar y Ddeddf i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, ac yn ystod 2022/23, derbyniwyd dau gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac ymatebwyd i'r rhain cyn pen 20 diwrnod gwaith. Hefyd, derbyniwyd un Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun, ac ymatebwyd i hwnnw hefyd o fewn cyfnod un mis calendr.

### **Cynllunio at y dyfodol**

5.3.4 Bu'r Consortiwm yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â'i weledigaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer 2022/23 ac amlinellodd y rhain mewn dogfen o'r enw 'Cynllun Busnes 2022-25; cytunwyd y Cynllun hwn gan y Cyd-bwyllgor Addysg ar 17 Mawrth 2022. Yn ystod 2022/23, mae'r Cyd-bwyllgor wedi derbyn diweddariadau ar flaenoriaethau'r cynllun busnes fel eitemau unigol ar yr agenda, a chaiff adolygiad o gynnydd y cynllun busnes ei adrodd yn flynyddol (bydd yr adolygiad diweddaraf, sy'n ymwneud â 2022/23, yn cael ei adrodd i'r Cyd-bwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn). Ar sail y diweddariadau a ddarparwyd, ystyrir y dylid darparu gwybodaeth briodol a rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor er mwyn adolygu a herio perfformiad a dwyn Rheolwyr Consortiwm Canolbarth y De i gyfrif.

Wrth edrych ymlaen dros y tymor canolig, mae'n debygol y bydd rhagolygon ariannu'r sector cyhoeddus yn heriol iawn oherwydd, er enghraifft, effaith geoleidyddiaeth, costau byw a phwysau chwyddiant a galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus. Mae CCD yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol tymor canolig, i gefnogi sefydlogrwydd ariannol a llywio cynllunio a darparu gwasanaethau, ac mae wedi cael cyllideb ddangosol ar draws gorwel amser o dair blynedd (2023/24 i 2025/26) fel yr adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor ar [13 Rhagfyr 2022](#)

### **Didwylledd – Blaenraglenni gwaith**

- 5.3.5 Roedd gan y Consortiwm flaengynllun gwaith o gyfarfodydd y Pwyllgor ar waith ar gyfer 2022/23 ynghyd â'r materion i'w hystyried.

### **Gwneud penderfyniadau a chraffu ar y penderfyniadau a wnaed**

- 5.3.6 Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De benderfyniadau allweddol, er enghraifft, adolygu a chytuno Cynllun Busnes y Consortiwm, y Gyllideb Refeniw Craidd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn un o'r prif gyrff sy'n gwneud penderfyniadau o fewn y Consortiwm, a thrwy gydol 2022/23, derbyniodd 27 o adroddiadau, y trefnwyd bod 25 ohonynt ar gael i'r cyhoedd cyn y cyfarfodydd, ac eithriwyd 2 ohonynt o'r wasg / ni chawsant eu cyhoeddi am y rheswm fod yr eitemau busnes yn golygu ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu.

Gwnaed penderfyniadau allweddol hefyd gan y Cyfarwyddwyr Addysg o bob un o'r awdurdodau lleol yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio'r Cyfarwyddwyr<sup>9</sup>.

Ar sail y wybodaeth uchod, ystyrir bod y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau a oedd yn weithredol yn ystod 2022/23 yn agored a thryloyw, ac yn cydymffurfio â Chytundeb Cyfreithiol y Consortiwm.

Yn olaf, mae adolygiad o ddetholiad o Adroddiadau'r Cyd-bwyllgor Addysg ar gyfer 2022/23 wedi cadarnhau bod fformat cyson wedi cael ei ddefnyddio.

### **Ymgysylltu â rhanddeiliaid**

- 5.3.7 Roedd y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid fel a ganlyn (Fel y nodwyd yng Nghytundeb Cyfreithiol 2015):
- **Grŵp Llywio'r Cyfarwyddwyr** – Mae Grŵp Llywio'r Cyfarwyddwyr yn cynnwys y Cyfarwyddwyr Addysg o bob un o'r pum awdurdod lleol sy'n

<sup>9</sup> Galwyd yn Bwrdd Rheoli Consortiwm Canolbarth y De ar ôl hynny.

ffurfio Consortiwm Canolbarth y De. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am wneud penderfyniadau dirprwyedig ar ran pob awdurdod lleol.

Mae'r aelodaeth, y broses gwneud penderfyniadau, y cyfarfodydd a'r cylch gorchwyl ar gyfer Grŵp Llywio'r Cyfarwyddwyr wedi eu dogfennu yn Atodlen 2 y Cytundeb Cyfreithiol.

- **Uwch Grŵp Arweinyddiaeth** - Mae'r Grŵp yn cynnwys uwch dîm rheoli Consortiwm Canolbarth y De, yn ogystal â Phrif Bartneriaid Gwella ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae uwch swyddogion â chyfrifoldebau strategol hefyd yn rhan o'r grŵp arweinyddiaeth. Amcan y grŵp yw cyflwyno gweithgareddau gwella ysgolion gyda'r nod o godi safonau addysgol.

Mae'r aelodaeth, y broses gwneud penderfyniadau, y cyfarfodydd a'r cylch gorchwyl ar gyfer yr holl grwpiau wedi eu dogfennu yn Atodlen 3 y Cytundeb Cyfreithiol.

- **Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg yn cynnwys un Aelod etholedig o bob Cyngor ac un cynrychiolydd swyddogion sydd â chyfrifoldeb am Addysg o bob Cyngor.

Mae gan y Cyd-bwyllgor Addysg bwerau pob Cyngor o ran darparu Gwasanaeth Addysg ar y Cyd a'i berfformiad, fel yr amlinellir yn y Cytundeb Cyfreithiol a'i arwain gan 'Fodel Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol' Llywodraeth Cymru.

Diben y Cyd-bwyllgor Addysg yw bod yn gyfrifol am y broses gwneud penderfyniadau, cymeradwyo'r cynllun busnes, monitro ac atebolrwydd ac adroddiadau ariannol am drefniadau Consortiwm Canolbarth y De, yn unol â'i gynllun busnes ei hun.

Mae'r aelodaeth, y broses gwneud penderfyniadau, y cyfarfodydd a'r cylch gorchwyl ar gyfer y Cyd-bwyllgor Addysg wedi eu dogfennu yn Atodlen 4 y Cytundeb Cyfreithiol.

- 5.3.8 Cytunodd y Cyd-bwyllgor i gomisiynu ISOS i gynnal adolygiad annibynnol o'r Consortiwm yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2018. Y cyd-destun i'r adolygiad oedd y newidiadau cenedlaethol i'r system addysg a'r pwysau ariannol sy'n wynebu ysgolion ac Awdurdodau Lleol. Fel rhan o weithredu'r argymhellion a gytunwyd o'r adolygiad, cytunodd y Cyd-bwyllgor ar 16 Rhagfyr 2020 i ddiwygio'r strwythur Llywodraethu er mwyn:-



- Ystyried buddion dod â grwpiau gwahanol ynghyd yn un bwrdd trosfwaol i wneud penderfyniadau;
- Adolygu rôl Cyd-bwyllgor y Consortiwm;
- Cryfhau ei swyddogaeth fel fforwm i rannu a datrys problemau gyda'i gilydd; a
- Chryfhau'r cysylltiad rhwng clystyrau, grwpiau penaethiaid lleol a'r Consortiwm.

5.3.9 Cytunwyd ar strwythur diwygiedig er mwyn sicrhau bod llais gan yr holl rhanddeiliaid yn y system a bod cyfleoedd i bob grŵp rhanddeiliaid gyfarfod i ganolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig â'r sector. Bellach, mae gan bob grŵp gylch gorchwyl diwygiedig a bydd yn cael ei gynnwys yn y cytundeb cyfreithiol diwygiedig arfaethedig (yn amodol ar ystyriaeth / cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor). Mae'r strwythur llywodraethu newydd fel a ganlyn:

- Cyd-bwyllgor
- Bwrdd Rheoli Consortiwm Canolbarth y De
- Grŵp Rhanddeiliaid Rhanbarthol
- Uwch Dîm Arwain
- Rhanddeiliad Lywodraethwr
- Grŵp Partneriaeth

5.3.10 Roedd amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu yn cael eu cynnig i annog rhanddeiliaid i fynegi eu safbwyntiau yn ystod 2022/23; roedd hyn yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol, trafodaethau grwpiau ffocws gyda grwpiau rhanddeiliaid rhanbarthol a'r Arolwg Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022.

#### 5.3.11 **Cynnig ar gyfer Gwella**

Dadansoddi canfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid ac adrodd ar y camau nesaf i'r holl grwpiau Llywodraethu.

## 5.4 **DIFFINIO DEILLIANNAU O RAN BUDDION ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL AC AMGYLCHEDDOL CYNALIADWY**

### **Diffinio deilliannau**

5.4.1 Cafodd 'Cynllun Busnes 2022-23' y Consortiwm ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Addysg ar 17 Mawrth 2022, ac roedd yn nodi pum blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer gwella:-

- Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel;

- Datblygu arweinwyr ysbrydoledig a'u hwyluso i gydweithio i godi safonau;
- Datblygu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i les, tegwch a rhagoriaeth;
- Datblygu trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd trylwyr sy'n cefnogi systemau hunanwella; a
- Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Consortiwm Canolbarth y De.

5.4.2 Cymeradwywyd Cyllideb Refeniw'r Consortiwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 22 Rhagfyr 2021, gan sicrhau bod adnoddau yn gydnaws â blaenoriaethau'r cynllun busnes.

5.4.3 Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Busnes a'r Gyllideb Refeniw, rhoddwyd Cynlluniau Gweithredol ar waith ar gyfer pob blaenoriaeth, yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, a roddodd fanylion ynglŷn â pha ddeilliannau yr oedd yn anelu atynt, y camau gweithredu i'w cyflawni gyda graddfeydd amser ar gyfer cyflawni a dangosyddion perfformiad.

5.4.4 Nododd adolygiad o dargedau dangosyddion perfformiad sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes fod uchelgais glir i'r Consortiwm wella yn ei feysydd blaenoriaeth.

5.4.5 Trwy gydol 2022/23, cyhoeddwyd diweddariadau ar gynnydd y cynllun gweithredu trwy gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Addysg sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ariannol, risgiau strategol a buddsoddiad yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes. Mae hyn wedi cynnwys paratoi ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm.

5.4.6 Yn ystod 2022/23, ariannwyd 66.2% o Gynllun Busnes y Consortiwm gan Lywodraeth Cymru, 33.4% gan CGA a 0.4% o gyfraniadau All.

### **Cynnig ar gyfer Gwella**

5.4.7 Ymgynghori ar adolygiad i'r cytundeb cyfreithiol yn dilyn adolygiad cenedlaethol o'r haen ganol gan Lywodraeth Cymru.

## **5.5 PENNU'R YMYRIADAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y MWYAF O GYFLAWNI'R DEILLIANNAU BWRIADEDIG**

### **Pennu a chynllunio ymyriadau**

5.5.1 Mae Cytundeb Cyfreithiol y Consortiwm yn nodi'r gofynion allweddol y dylid eu dilyn wrth osod ei flaenoriaethau, gan adrodd ar raddau'r cynnydd a wnaed mewn meysydd blaenoriaeth a hefyd y trefniadau cynllunio a rheoli ariannol sy'n cefnogi hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i:

- Gytuno ar gyllideb refeniw blynyddol ddrafft y Gwasanaeth Gwella Ysgolion erbyn 31 Rhagfyr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, a'i chyflwyno i bob un o'r Partïon i'w chymeradwyo, gan gytuno ar y cynllun busnes erbyn 1 Chwefror; a
- Chyhoeddi diweddariadau ariannol a chynnydd perfformiad bob tymor yn ystod y flwyddyn, a fydd yn cynnwys esboniadau am unrhyw amrywiadau yn unol â'r gyllideb wedi'i phroffilio.

### **Cynnig ar gyfer Gwella**

5.5.2 Cyhoeddi atodiad i Gynllun Busnes 2022/25 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd hyd yma yn ogystal â darparu cyd-destun ychwanegol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

5.5.3 Pan adolygwyd y gofynion uchod ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23:

- Cyflwynwyd Adroddiadau Perfformiad i'r Cydbwyllgor Addysg a Phwyllgorau Craffu'r Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol; cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Busnes; a rhoddwyd gwybod am risgiau strategol i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor. Yn ogystal, mae'r wybodaeth a adroddwyd hefyd yn amlygu ac yn egluro eithriadau ac yn nodi lle byddai camau unioni yn cael eu cymryd.

5.5.4 Ar sail yr uchod, ystyrir y byddai'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddeall perfformiad y Consortiwm a'i ddwyn i gyfrif.

### **Gwneud y gorau o gyflawni'r deilliannau bwriadedig**

5.5.4 Mae Cynllun Busnes y Consortiwm yn amlinellu sut fyddai'r gostyngiad o 3% a gytunwyd i'r gyllideb graidd yn cael ei gyflawni a'i reoli yn ystod 2023/24.

5.5.5 Gan gofio'r cyd-destun hwn, cymerwyd camau gan y Consortiwm i gynllunio dyrannu adnoddau a rhoi trefniadau ar waith i wneud y gorau o'i effaith.

### **Uchafu effaith**

5.5.6 Yn sgil pandemig COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi canslo'r rhan fwyaf o'r casgliadau data statudol ar gyfer 2020, 2021 a 2022. Mae'r casgliadau a gafodd eu hatal yn cynnwys:

- Presenoldeb: Casgliadau data Cynradd 2020, 2021 a 2022
- Presenoldeb: Casgliadau data Uwchradd 2020, 2021 a 2022
- Casgliadau Data Cenedlaethol (NDC) Holl gasgliadau data 2020 a 2021, a'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer 2022

- 5.5.7 Parhaodd LIC i gasglu data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a chasgliadau data Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) yn 2020, 2021 a 2022. Fodd bynnag, oherwydd y materion a adroddwyd y llynedd mewn perthynas â'r casgliad ar gyfer 2021 a lefel y gwiriadau dilysu a gwblhawyd ar CYBLD 2020, dylid trin cymariaethau ar draws yr amserlen hon gydag elfen o fal.
- 5.5.8 Ailgyflwynwyd datganiadau ystadegol ar gyfer asesiad gwaelodlin y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 3 ar gyfer 2021-22 a chyhoeddwyd datganiad ystadegol ar lefel genedlaethol yn unig yn nhymor yr hydref 2022. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad ar gyfer disgyblion Cymwys am PYDd / Ddim yn gymwys am PYDd ar lefel genedlaethol yn unig. Nid oes unrhyw ddadansoddiad o dan lefel genedlaethol ar gael i'w weld.
- 5.5.9 Fel yr adroddwyd y llynedd cadarnhaodd y Gweinidog Addysg ar 21 Mehefin 2021 hefyd na fyddai Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi mesurau perfformiad yn ymwneud â chywres arholiadau haf 2021, sy'n cwmpasu'r holl fesurau perfformiad ysgol ac ôl-16 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020-21. Yn ogystal, o ystyried y goblygiadau clir y bydd heriau parhaus ar gyfer cymwysterau a ddyfernir y flwyddyn nesaf, mae Llywodraeth Cymru wedi atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a mesurau perfformiad etifeddol chweched dosbarth ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-22 hefyd. Felly, nid oes unrhyw fesurau perfformiad ar gael ar gyfer CA4 nac Ôl-16 ar gyfer canlyniadau Haf 2020, 2021 a 2022.
- 5.5.10 Bydd y bwletinau ystadegol ar gyfer canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn parhau i gael eu cyhoeddi ar gyfer 2021-22 fel y darperir ar gyfer y ddwy flynedd academiaidd flaenorol, ond ni fyddant yn cynnwys mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 na mesurau perfformiad etifeddol chweched dosbarth, a byddant ond yn cynnwys data lefel genedlaethol â chynnwys gwahanol i ddatganiadau blaenorol y bwletinau hyn.
- Felly, ar gyfer 2021-22, nid oes unrhyw fesurau perfformiad ar gael i'r cyhoedd ar lefel Ysgol, ALI a Chonsortiwm Rhanbarthol y gellir eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, a'r un oedd y sefyllfa ar gyfer y llynedd.
- 5.5.11 Mae cyhoeddi data perfformiad ar Fy Ysgol Leol yn parhau i gael ei atal.

- 5.5.13 Cyflwynwyd arolygiadau peilot Estyn gennym yn nhymor y gwanwyn 2022<sup>[1]</sup> gyda thua 20 o ysgolion (cam 1), gydag arolygiadau'n parhau i dymor yr haf gydag ysgolion Cam 2.

## 5.6 DATBLYGU CAPASITI'R ENDID, GAN GYNNWYS GALLU EI ARWEINWYR A'R UNIGOLION ODDI MEWN IDDO

### Datblygu capasiti'r endid

- 5.6.1 Nod y Consortiwm yw sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau, ac mae'n cydnabod gwerth pobl hyfforddedig a chymwys wrth gyflenwi gwasanaethau yn effeithiol.
- 5.6.2 Mae'r prosesau Hunanwerthuso yn y Consortiwm yn sicrhau asesiad trwyadl o'r sefyllfa bresennol a meysydd i'w gwella. Ymgorfforir y gwerthusiad hwn mewn prosesau cynllunio ar lefel gwasanaeth, yn ogystal â sicrhau alinio â blaenoriaethau cenedlaethol ac awdurdodau lleol.
- 5.6.3 Rheoli'r gweithlu yn effeithiol – mae'r Consortiwm wedi datblygu'n fwy effeithlon yn gyson o flwyddyn i flwyddyn, yn cael ei ysgogi gan reolaeth ragweithiol a gochelgar, a hefyd gostyngiadau parhaus mewn cyllid, ac ar yr un pryd:
- Cefnogi cyfeiriad cyffredinol canlyniadau perfformiad gwell mewn meysydd blaenoriaeth yn y cynllun busnes.
  - Parhau i weithredu system o drefniadau gweithio hyblyg sydd wedi manteisio ar dechnoleg ddigidol i helpu'r Consortiwm i weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i ddiwallu anghenion ysgolion, lleihau costau, cynorthwyo cynhyrchiant staff a helpu cyfrannu at gydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd ar gyfer cyflogaion.
  - Alinio moderneiddio'i drefniadau yn barhaus â Strategaeth Ddigidol CBSRhCT.
  - Alinio â Strategaeth Ddigidol newydd CBSRhCT a roddwyd ar waith yn Nhymor yr Hydref 2021

## 5.7 Datblygu gallu arweinwyr yr endid ac unigolion eraill

Mae Cytundeb Cyfreithiol y Consortiwm yn amlinellu cyfrifoldebau'r Rheolwr Gyfarwyddwr, y Cyd-bwyllgor Addysg a Bwrdd Rheoli Consortiwm Canolbarth y De (Atodlen 2). Cadarnhaodd adolygiad o ddetholiad o benderfyniadau dirprwyedig a wnaed yn ystod y flwyddyn fod penderfyniadau wedi cael eu cymeradwyo gan aelodau a chyflogaion dynodedig y Cyd-bwyllgor Addysg.

<sup>[1]</sup> [https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/araith-owen-evans-prif-arolygydd-ei-mawrhydi-17-chwefror-2022?\\_ga=2.106829891.1118942157.1701092021-864406990.1701092021](https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/araith-owen-evans-prif-arolygydd-ei-mawrhydi-17-chwefror-2022?_ga=2.106829891.1118942157.1701092021-864406990.1701092021)

## Datblygu galluoedd cyflogeion

- 5.7.1 Mae'r Consortiwm wedi ymrwymo i ddatblygiad staff, yn unol ag anghenion busnes, i helpu sicrhau bod ganddo weithlu 'sy'n addas at ei ddiben'. Yn ystod y flwyddyn, mae hyn wedi cynnwys sesiynau sefydlu staff, Rhaglenni Datblygu Arweinwyr, Briffiau Staff ac amrywiaeth o hyfforddiant gweithredol fel Cwricwlwm i Gymru, Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth, Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth, [Canllawiau Gwella Ysgolion](#), Pecyn Cymorth Hunanwerthuso Llywodraethwyr, [Yr Adnodd Cenedlaethol : gwerthuso a gwella](#). Mae pob un ohonynt wedi'u hategu gan ein Cenhadaeth Genedlaethol. Cefnogwyd datblygiad staff drwy sesiynau sefydlu, Briffiau Rheolwr RhCT ac ystod o hyfforddiant arweinyddiaeth perthnasol.

### Cynnig ar gyfer Gwella

- 5.7.3 Trefnu rhaglen hyfforddi a mentora ar gyfer yr holl staff, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arferion gwrth-hiliol yn CCD er mwyn i staff ddysgu mwy am wrth-hiliaeth, cynyddu hyder staff a dod yn hyrwyddwyr o fewn y sefydliad ar wrth-hiliaeth. Hefyd, cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chynllun gweithredu gwrth-hiliol.

## 5.8 RHEOLI RISGIAU A PHERFFORMIAD TRWY REOLAETH FEWNOL GADARN A RHEOLAETH ARIANNOL GYHOEDDUS GREF

### Rheoli risg

- 5.8.1 Yn ystod 2022/23, parhaodd y Consortiwm i ddiweddarau ei dempled newid risg bob tymor yn unol â monitro'i gynllun busnes a'i bolisiau risg.
- 5.8.2 Caiff y templed rheoli risg hwn ei ddiweddarau gan yr holl berchnogion risg, ac wedyn ei gyflwyno ar gyfer ei adolygu gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Yn dilyn cytundeb yr UDA, caiff cynigion eu cyflwyno i'r Cyfarwyddwyr i'w hystyried, ac yna i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor i'w hadolygu'n derfynol a'u herio. Yn ystod tymor y gwanwyn, cyflwynwyd y templed newid risg i Gyfarwyddwyr Addysg ar 11 Mawrth 2022. Unwaith y bydd y broses hon wedi dod i ben, mae'r gofrestr risg wedi'i chwblhau.
- 5.8.3 Ymgorfforwyd risgiau newydd yn y gofrestr yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, y risgiau'n gysylltiedig â phandemig COVID 19 a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hwn wedi'i gynnwys yn y Gofrestr Risg, gyda chamau gweithredu cysylltiedig i gael sylw, a bydd hyn yn cael ei adrodd a'i fonitro gan y Cyd-bwyllgor.

### 5.8.4 Cynnig ar gyfer Gwella

- Mae'r polisi rheoli risg wedi cael ei adolygu yn 2021/22 ac mae cynigion ar gyfer gwella i'w cyflwyno i grwpiau llywodraethu i'w hystyried yn ystod y flwyddyn.

### **Rheoli perfformiad**

- 5.8.5 Mae adran adran 'Pennu a chynllunio ymyriadau' (5.5.1) y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o drefniadau Rheoli Perfformiad y Consortiwm. Caiff perfformiad ar lefel strategol ei yrru a'i fesur trwy dimau ysgogi'r Consortiwm. Sefydlwyd pump o dimau ysgogi i sicrhau bod y cynlluniau blaenoriaeth sy'n alinio â chynllun busnes Consortiwm Canolbarth y De 2022/25 yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a sicrhau eu heffaith.

### **Rheolaeth fewnol drylwyr**

- 5.8.6 Roedd aelodaeth ac amllder cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Addysg y Consortiwm yn ystod 2022/23 yn unol â Chytundeb Cyfreithiol y Consortiwm.

### **Archwilio Mewnol**

- 5.8.7 Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23, yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn, i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r gwaith a wnaed gan yr Archwilwyr Mewnol mewn perthynas â'r Consortiwm yn ystod y flwyddyn wedi'i amlinellu ym mharagraff 5.8.16.

### **Rheoli data**

- 5.8.8 Mae Cynllun Rheoli Gwybodaeth ar waith yn CBSRhCT sy'n amlinellu'r fframwaith, gan gynnwys gofynion cyfreithiol, ar gyfer rheoli gwybodaeth o fewn y Consortiwm. Adolygwyd y gwaith hwn i sicrhau cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data (GDPR).
- 5.8.9 Nododd adolygiad o drefniadau a oedd ar waith yn ystod 2022/23 eu bod yn gydnaws â gofynion a bennwyd oherwydd:
- Dynodwyd cyfrifoldebau allweddol yn ffurfiol o fewn y Consortiwm: Uwch Swyddog Risg Rheoli Gwybodaeth dynodedig y Consortiwm oedd y Rheolwr Gyfarwyddwr, roedd Swyddog Rheoli Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data o fewn yr awdurdod lletyol sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Gwasanaethau TGCh a Digidol;
  - Roedd Bwrdd Rheoli Gwybodaeth yn weithredol yn CBSRhCT, yn cael ei gadeirio gan yr Uwch Swyddog Risg Rheoli Gwybodaeth, a'r Bwrdd yn cael ei gynorthwyo gan Weithgor Rheoli Gwybodaeth;

- Roedd gwybodaeth ar gael ar wefan CBSRhCT o ran Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth, ac roedd ganddo Gynllun Cyhoeddi ar waith (a fabwysiadwyd gan y Consortium) yn unol â chyfrifoldebau'r Cyngor o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; a
- Mae gan yr Awdurdod Lletyol gynllun Rhwydwaith Sector Cyhoeddus ar waith i fodloni'r amserlen diwedd blwyddyn ar gyfer adnewyddu h.y. y Rhwydwaith Sector Cyhoeddus sy'n cysylltu'r Cyngor a'r rhwydwaith sector cyhoeddus ehangach (Cyngor i Gyngor, Cyngor i'r Llywodraeth, e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau) i alluogi'r Cyngor i gyfathrebu a rhannu data yn ddiogel ar draws yr holl gyrff cyhoeddus.

### Rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

5.8.10 Mae Atodlen 5 y Cytundeb Cyfreithiol yn darparu'r fframwaith y mae cyllid y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae'r Protocol Ariannol yn darparu'r fframwaith a'r berthynas ariannol rhwng y Partïon (y Cynghorau), yr Awdurdod Lletyol a Chonortium Canolbarth y De. Mae'r meysydd busnes canlynol wedi eu dogfennu yn y Cytundeb Cyfreithiol

- Egwyddorion Cyffredinol
- Cyfraniadau a mecanweithiau codi tâl;
- Trefniadau talu;
- Rheolaeth a monitro cyllidebol;
- Gwariant Cyfalaf a chytundebau hirdymor;
- Cyfrifon ac Archwiliadau Blynnyddol; ac
- Ansolfedd ariannol.

5.8.11 Mae'r Cytundeb Cyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Addysg gynnal cyfarfodydd bob tymor, o leiaf, trwy gydol y flwyddyn. Mae eitemau agenda safonol yn cynnwys adroddiad gan y Trysorydd.

5.8.12 Mae Rheolau Gweithdrefnau Ariannol CBSRhCT yn darparu canllawiau o ran yr holl faterion ariannol. Mae Consortium Canolbarth y De wedi mabwysiadu Rheolau Gweithdrefnau Ariannol a Chontract Rhondda Cynon Taf – yn unol â'r hyn a gadarnheir yn Adran 17 (Atodlen 4) y Cytundeb Cyfreithiol:

***“Rheolau a Gweithdrefn***

*Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd Cyd-bwyllgor Addysg Consortium Canolbarth y De, lle bo'n berthnasol ac yn amodol ar ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, yn gweithredu yn unol â chynlluniau dirprwyo, Rheolau Gweithdrefn a pholisïau'r Awdurdod Lletyol o bryd i'w gilydd.”*

5.8.13 Mae Archwilio Cymru<sup>10</sup> yn archwilio datganiad o gyfrifon blynnyddol Consortium Canolbarth y De a chaiff canlyniad yr archwiliad ei adrodd i'r Cyd-bwyllgor.

<sup>10</sup> Archwilio Cymru – Swyddfa Archwilio Cymru yn flaenorol



- 5.8.14 Caiff perfformiad ariannol a gweithredol Consortiwm Canolbarth y De ei fonitro a'i graffu gan y Cyd-bwyllgor Addysg.

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg yn derbyn adroddiadau gan:

- Y Trysorydd;
- Y Rheolwr Gyfarwyddwr; a
- Swyddogion, sy'n berthnasol i weithrediadau a llywodraethu'r sefydliad.

- 5.8.15 Yn ystod 2022/23, roedd rôl y Prif Swyddog Ariannol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydymffurfio ag egwyddorion Datganiad CIPFA – Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol 2010.

### **Archwiliad Mewnol**

- 5.8.16 Yn ystod 2022/23 adolygodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ddau hawliad grant h.y. GGYCRh 2021/22 a GDD 2021/22 Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, yn unol â'r Cynllun Blyneddol Archwilio Rhanbarthol Mewnol y cytunwyd arno a daethpwyd i'r casgliad nad oes gwendidau materol. Adroddwyd am hyn i gyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023. Yn ogystal, adolygwyd 1 system ariannol graidd (hy y Ledger Cyffredinol) ym mis Mawrth 2023 a daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw wendidau materol. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyd-bwyllgor a drefnwyd ar 23 Mai 23.

### **Archwiliad Allanol**

- 5.8.17 Derbyniodd y datganiad o gyfrifon archwiliedig diweddaraf (h.y. ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22) adroddiad archwilio diamod (h.y. sêl bendith) ac fe'u cymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Addysg ar 25 Hydref 2022.
- 5.8.18 Mae'r Consortiwm wedi parhau i ddangos yn gyhoeddus ei ymrwymiad i gynllunio a rheolaeth ariannol gref a chyfrifol, ac mae wedi cefnogi hyn trwy berfformio'n ariannol gadarn yn ystod cyfnod o ostyngiad mewn cyllidebau. Mae hyn oherwydd:
- Mae'r Consortiwm wedi mabwysiadu cyfres o brotocolau sy'n cefnogi cynllunio a rheolaeth ariannol gref, er enghraifft, 'Rheolau Gweithdrefn Ariannol' a 'Rheolau Gweithdrefn Contractau', y cydymffurfiwyd â nhw yn ystod y flwyddyn;
  - Gosododd y Consortiwm Gyllideb Refeniw Gros ar 22 Rhagfyr 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 o £3,624,875, sy'n gyfystyr â chodiad o 1.72% ar y flwyddyn flaenorol. Adroddwyd canlyniadau perfformiad ariannol yn gyhoeddus bob tymor yn ystod y flwyddyn, a chraffodd y Cyd-bwyllgor Addysg arnynt. Mae'r sefyllfa alldro terfynol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor yng nghyfarfod Mai 2023, yn dangos cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer blwyddyn

ariannol 2022/23 ar ôl neilltuo cronfeydd wrth gefn penodol i gefnogi'r gwasanaeth i ailfodelu.

- Mae CCD yn sefydlog yn ariannol, yn seiliedig ar: balansau wrth gefn 2022/23 yn unol â sefyllfa diwedd blwyddyn 2021/22 h.y. £174k (yn amodol ar archwiliad); bod â hanes dros nifer o flynyddoedd o bennu a chyflawni cyllidebau refeniw cytbwys; a chael 'sêl bendith' ar ei gyfrifon diwedd blwyddyn wrth eu harchwilio gan Archwilio Cymru
- 5.8.19 Daeth adroddiad diweddaraf Archwilio Cymru, sef 'Archwiliad o'r Adroddiad ar Ddatganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli' a adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor Addysg ar 25 Hydref 2022 i'r casgliad fod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:
- *Yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar 31 Mawrth 2022; ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac*
  - *Wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.*
- 5.8.20 Nid oedd adroddiad Archwilio Cymru a gyflwynwyd ar 25 Hydref 2022 yn cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gwella i gael sylw gan y Consortiwm a'r Awdurdod Lletyol.

## 5.9 **RHOI ARFERION DA AR WAITH O RAN TRYLOYWDER, ADRODD AC ARCHWILIO I GYFLAWNI ATEBOLRWYDD EFFEITHIOL**

### **Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder ac adrodd**

- 5.9.1 Mae'r Consortiwm wedi rhoi dull agored a chyson ar waith i adrodd ar ei fusnes, fel yr amlinellir yn adrannau 5.4 a 5.5 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn. Nod hyn yw helpu sicrhau bod gwybodaeth yn ddealladwy i randdeiliaid a'u bod yn cael cyfle i herio perfformiad, cynlluniau a phenderfyniadau'r Consortiwm.
- 5.9.2 Mae adolygiad o wybodaeth enghreifftiol a adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor Addysg wedi dangos:
- Bod Adroddiadau a Chynlluniau Blynyddol yn cael eu hadrodd yn gyhoeddus, gan roi trosolwg o berfformiad, er enghraifft, Datganiad o Gyfrifon archwiliedig y Cyngor 2021/22 a gafodd ei adrodd a'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Addysg ar 25 Hydref 2022; a

- Bod defnydd yn cael ei wneud o ddolenni electronig mewn adroddiadau i roi gwybodaeth fanylach i'r darlennydd, pe bai ei hangen arnynt; a
- Bod cofnodion cyfarfodydd yn cadarnhau bod swyddogion dynodedig yn mynychu pob cyfarfod i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau ar lafar, a nodwyd nifer o achlysuron lle rhoddwyd diweddariadau trwy gyflwyniadau, er enghraifft, gan ddefnyddio sleidiau.

## 6. **ASESIAD CYFFREDINOL O DREFNIADAU'R CONSORTIWM**

- 6.1 Ar sail yr asesiad a gynhaliwyd, mae cyflawni trefniadau llywodraethu'r Consortiwm wedi'i ddiwygio yng ngolau pandemig Covid-19, ac maent wedi parhau'n effeithiol fel y dangoswyd drwy'r diweddariadau cynhwysfawr ac amserol a ddarparwyd i gyfarfodydd rhithwir y Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn; cydymffurfio'n barhaus â gofynion y Cytundeb Cyfreithiol; trefniadau cynllunio a rheoli ariannol cadarn; a darpariaeth wedi'i theilwra i ysgolion, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod ysgolion wedi cael cymorth trwy gydol y pandemig a gyda'u cynlluniau ar gyfer ymadfer.
- 6.2 Er gwaethaf y sefyllfa gyffredinol hon, mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle ystyrir bod gwelliannau'n angenrheidiol i atgyfnerthu effeithiolrwydd trefniadau presennol y Consortiwm ymhellach. Mae'r rhain wedi eu hamlinellu yn Adran 7.
- 6.3 Gan edrych i'r dyfodol, bydd y trefniadau llywodraethu cadarn sydd ar waith yng Nghonsortiwm Canolbarth y De, ynghyd â gweithredu'r cynigion ar gyfer gwella a amlinellir yn Adran 7, yn hollbwysig wrth gefnogi'r sefydliad i ailfodelu'i hun a hefyd parhau i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol.

**CYNIGION AR GYFER GWELLA**

7.1 Parthed cwblhau'r asesiad o drefniadau llywodraethu'r Consortiwm, mae Tabl 1 yn amlinellu cynigion ar gyfer gwella.

<b>Egwyddor / Maes Craidd</b>	<b>Rhif Paragraff</b>	<b>Mater a Nodwyd</b>	<b>Cynig ar gyfer Gwella</b>	<b>Graddfa amser ar gyfer Gweithredu</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>
<b>SICRHAU DIDWYLLEDD AC YMGYSYLLTU CYNHWYSFAWR Â RHANDDEILIAID</b>	5.3.11	Cyfathrebu â rhanddeiliaid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddi canfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid ac adrodd ar y camau nesaf i'r holl grwpiau Llywodraethu.</li> </ul>	Tymor yr Haf 23	Rheolwr Gyfarwyddwr
<b>DIFFINIO DEILLIANNAU O RAN MANTEISION ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL AC AMGYLCHEDDOL CYNALIADWY</b>	5.4.7	Cynllunio Ariannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghori ar adolygiad i'r cytundeb cyfreithiol yn dilyn adolygiad cenedlaethol o'r haen ganol gan Lywodraeth Cymru.</li> </ul>	Tymor y Gwanwyn 24	Rheolwr Gyfarwyddwr
<b>DATBLYGU CAPASITÏ'R SEFYDLIAD, GAN GYNNWYS GALLU EI ARWEINWYR A'R UNIGOLION ODDI MEWN IDDO</b>	5.5.2	Cynllunio Busnes	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi atodiad i Gynllun Busnes 2022/25 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd hyd yma yn ogystal â darparu cyd-destun ychwanegol ar gyfer y flwyddyn i ddod.</li> </ul>	Medi 23	Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr

<b>DATBLYGU CAPASITI'R SEFYDLIAD, GAN GYNNWYS GALLU EI ARWEINWYR A'R UNIGOLION ODDI MEWN IDDO</b>	5.7.2	Dysgu Proffesiynol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trefnu rhaglen hyfforddi a mentora ar gyfer yr holl staff, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arferion gwrth-hiliol yn CCD er mwyn i staff ddysgu mwy am wrth-hiliaeth, cynyddu hyder staff a dod yn hyrwyddwyr o fewn y sefydliad ar wrth-hiliaeth. Hefyd, cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chynllun gweithredu gwrth-hiliol.</li> </ul>	Medi 23	Rheolwr Gyfarwyddwr
---	-------	-----------------------	--	---------	------------------------

7.2 Mae Uwch Dîm Rheoli'r Consortiwm wedi derbyn y cynigion ar gyfer gwella ac mae wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith yn ystod 2023/24. Mae'r Uwch Dîm Rheoli hefyd wedi cadarnhau y bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei adrodd i Gyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn ystod y flwyddyn i alluogi Aelodau i adolygu a chraffu ar raddau'r cynnydd a wneir.

Rheolwr Gyfarwyddwr: Clara Seery



Swyddog Adran 151: Barrie Davies



Rhiannar McBick

Cadeirydd, Cyd-bwyllgor Addysg: Y Cynghorydd Rhiannon Birch \_\_\_\_\_ 26-05-2023

**ATODIAD A**

**CYNIGION AR GYFER GWELLA 2021/22 – DATGANIAD SEFYLLFA**

<p><b>Sicrhau Didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid</b></p>	<p>5.3.11</p>	<p>Cyfathrebu â rhanddeiliaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal arolwg rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth fel rhan o flaenoriaeth cynllun busnes CCD i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd CCD.</li> </ul>	<p>Tymor yr Hydref 22</p>	<p>Rheolwr Gyfarwyddwr</p>	<p><b>Ar y gweill –</b> Cynlluniwyd cwestiynau'r arolwg i gyd-fynd â gofynion proses hunanwerthuso CCD. Oherwydd penderfyniad a wnaed i oedi'r arolwg, mae dyddiad cau newydd wedi'i bennu ar gyfer 30 Mehefin 23.</p>
<p><b>Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy</b></p>	<p>5.4.7</p>	<p>Cynllunio Ariannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnig gwelliant i'r Cytundeb Cyfreithiol i ganiatáu i flaenoriaethau a chanlyniadau hunanwerthuso ALI gael eu hymgorffori yng Nghynllun Busnes CCD.</li> </ul>	<p>Tymor yr Hydref 22</p>	<p>Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr</p>	<p><b>Ar y gweill –</b> Yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, anfonwyd fersiwn ddiwygiedig ddrafft o'r cytundeb cyfreithiol at dîm cyfreithiol RhCT i'w ystyried. Fodd bynnag, bydd canlyniad gwaith adolygu'r haen ganol</p>

						yn effeithio ar hyn - gan aros am ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru.
<b>Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo</b>	5.7.3	Sefydlu Aelodau Newydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu rhaglen sefydlu ar gyfer Aelodau newydd eu hethol o fewn yr awdurdodau lleol ar waith Consortiwm Canolbarth y De</li> </ul>	Tymor yr Haf 22	Rheolwr Gyfarwyddwr	<b>Wedi ei gwblhau -</b>  Mae rhaglen sefydlu wedi cael ei datblygu a'i rhannu gydag Aelodau. Mae sesiynau cychwynnol wedi'u cwblhau a sesiynau pellach i'w hystyried.
<b>Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref</b>	5.8.4	Rheoli Risg	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygwyd y polisi rheoli risg yn 2021/22 a chyflwynir cynigion ar gyfer gwella i grwpiau llywodraethu i'w hystyried yn ystod y flwyddyn.</li> </ul>	Tymor yr Haf 22	Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr	<b>Wedi ei gwblhau -</b>  Mae'r polisi risg wedi'i ddiwygio a'i gymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth CCD ym mis Hydref 2022



## **Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De**

### **Barn ar ddatganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith gymwys ac yn God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021/22.

Yn fy marn, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ar 31 Mawrth 2023, ac ar ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23.

### **Sail y farn**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a Nodyn Ymarfer 10 "Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig". Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r Cyd-bwyllgor, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### **Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyd-bwyllgor i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol yng nghyswllt busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## **Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd am hynny. Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, a heblaw i'r graddau a nodir yn eglur fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad am sicrwydd am hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu unrhyw wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu sydd fel arall un ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn dod i wybod am unrhyw anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau sylweddol amlwg, mae'n ofynnol i mi benderfynu p'un a yw hyn yn achosi camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os deuaif i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnais, fod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn sylweddol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## **Adroddiad ar ofynion eraill**

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a pharatowyd yr Adroddiad Naratif yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, a pharatowyd y Datganiad Llywodraethu yn unol â chanllawiau.

## **Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyd-bwyllgor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Naratif neu'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol, yr wyf yn adrodd amdanynt i chi, os wyf fi o'r farn:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- Nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifeg a'r ffurflenni.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- baratoi datganiad cyfrifon y Cyd-bwyllgor, sy'n rhoi golwg wir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rheolaethau mewrol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu'r cyd-bwyllgor i barhau fel pryder gweithredol, datgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â mynd i bryder a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y cyd-bwyllgor yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu enw gallu'r corff llywodraeth leol i barhau fel pryder gweithredol, datgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â phryder parhaus a defnyddio sail gyfredol cyfrifyddu oni fernir ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag camddatganiad sylweddol, p'un a yw hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio

(DU) bob amser yn darganfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn rhai sylweddol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, er mwyn canfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, archwilwyr mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De sy'n gysylltiedig â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod y risgiau twyll, ac ymateb iddynt, a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; a
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Fel tîm archwilio, ystyried sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r corff yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiad ariannol neu sy'n cael effaith sylfaenol ar weithrediadau.
- Derbyn dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr a'r Cydbwyllgor ynghylch ymglybiau a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â risg twyll trwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolyn ac addasiadau eraill; asesu p'un a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos tuedd

bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i hynt arferol busnes.

Cyfleais hefyd deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharheais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan anhawster cynhenid canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortium Canolbarth y De, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities) Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### **Cyfrifoldebau eraill archwilydd**

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwrpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

### **Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Rwy'n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortium Canolbarth y De, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Adrian Crompton**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Dyddiad**

**1 Capital Quarter**  
**Caerdydd**  
**CF10 4BZ**

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a chywirdeb gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; dydy'r gwaith sydd wedi ei wneud gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion yma ac yn unol â hynny dydy archwilwyr ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddyn nhw gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau

## **Geirfa**

### **Croniad**

Croniad yw swm a ddangosir yn y cyfrifon sy'n cynrychioli incwm neu wariant yn gysylltiedig â'r cyfnod cyfrifyddu, nad oedd wedi cael ei dderbyn na'i dalu ar ddyddiad y Fantolen.

### **Actiwari**

Actiwari yw unigolyn neu sefydliad sy'n cyfrifo premiymau ac atebolrwyddau yswiriant a rhwymedigaethau pensiwn.

### **Archwiliad**

Archwiliad yw archwiliad annibynnol o weithgareddau.

### **Cyllideb**

Cyllideb (neu amcangyfrif) yw cynllun incwm a gwariant. Caiff gwariant gwirioneddol ei fonitro yn unol â'r cynllun hwn yn ddiweddarach.

### **Gwariant Cyfalaf**

Gwariant cyfalaf yw gwariant ar asedau hirdymor. Mae'r rhain yn asedau a fydd yn cael eu defnyddio am sawl blwyddyn i ddarparu gwasanaethau ac maent yn eitemau fel adeiladau, offer a cherbydau.

### **Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)**

Mae CIPFA yn gyfrifol am gyhoeddi canllawiau ariannol i gyrrff cyhoeddus.

### **Credydwr**

Credydwr yw sefydliad/unigolyn y mae arno'r Cyngor arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd.

### **Asedau Cyfredol**

Mae'r rhain yn asedau byrdymor sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio yn y cyfnod cyfrifyddu dilynol.

### **Atebolrwyddau Cyfredol**

Mae'r rhain yn atebolrwyddau byrdymor y mae disgwyl i'r Cyngor eu talu yn y cyfnod cyfrifyddu dilynol.

### **Dyledwr**

Dyledwr yw sefydliad/unigolyn y mae arno arian i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd.

### **Cynllun â Buddion wedi'u Diffinio**

Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio yw un sy'n seilio buddion ymddeol ar Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio.

### **Cynllun Cyfraniadau wedi'u Diffinio**

Mae cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio yn fath o gynllun ymddeol y nodir swm cyfraniad blynyddol y cyflogwr ynddo. Mae buddion wedi eu seilio ar y

symiau sy'n cael eu credydu i'r cyfrifon hyn (trwy gyfraniadau'r cyflogwr, ac os yw'n berthnasol, cyfraniadau cyflogeion), yn ogystal ag unrhyw enillion buddsoddi. Dim ond cyfraniadau'r cyflogwr i'r cyfrif sy'n cael eu sicrhau, nid y buddion yn y dyfodol.

### **Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi**

Cronfeydd wrth gefn yw'r rhain sy'n cael eu rhoi o'r neilltu at ddiben penodol.

### **Blwyddyn Ariannol**

Hwn yw'r cyfnod cyfrifyddu. I awdurdodau lleol, mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

### **Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS)**

Rheoliadau Ariannol y dylid eu dilyn, fel y nodwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB).

### **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**

Caiff Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol eu creu gan yr IASB (y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol) a'r nod yw sicrhau cysondeb o fewn y gwledydd sy'n mabwysiadu'r safonau.

### **Prydlesu**

Mae hwn yn ddull gwariant cyllido trwy dalu'r perchennog i ddefnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

### **Lesddeiliad**

Y sawl sy'n defnyddio neu'n rhentu'r ased neu'r eiddo ar brydles. Yn achos prydlesi cyfalaf, mae'r lesddeiliad yn 'ddyledwr' y lesydd hefyd.

### **Lesydd**

Perchennog neu ddeiliad teitl yr ased neu'r eiddo ar brydles. Y lesydd hefyd yw'r benthyciwr a'r parti sicredig yn achos prydlesi cyfalaf a phrydlesi gweithredu.

### **Atebolrwydd**

Atebolrwydd yw rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddigwyddiadau blaenorol.

### **Ased Hirdymor**

Mae'r rhain yn asedau a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau (fel arfer am fwy na blwyddyn).

### **Prydlesi Gweithredu**

Mae'r rhain yn brydlesi lle mae risgiau perchnogaeth yr ased yn aros gyda'r perchennog.

### **Digwyddiadau Ar Ôl y Fantolen**

Ôl-eitemau'r Fantolen yw'r rheiny sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Mae'r rhain yn eitemau nad oeddent yn bodoli ar yr adeg pan baratowyd y Fantolen ond dylid eu datgelu os ydynt yn berthnasol i ddeall y cyfrifon.

**Darpariaeth**

Darpariaeth yw rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth, ond ni ellir pennu'r swm na'r amseriad yn gywir eto.

**Parti Cysylltiedig**

Mae parti cysylltiedig yn bodoli pan fydd rheolaeth neu ddylanwad gan un parti dros un arall.

**Llywodraeth Cymru (LIC)**

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion. Cânt eu cynorthwyo gan Weision Sifil sy'n gweithio ar draws meysydd datganoledig bywyd cyhoeddus fel iechyd, addysg a'r amgylchedd.